TGAU

# CBAC TGAU Drama

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru. Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ........ 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ........ 1
Strwythur y cymhwyster ........ 2
Asesu ........ 3
Crynodeb o'r Asesiad ........ 3
Trosolwg o Uned 1 ........ 4
Dyfeisio Theatr ........ 4
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC ........ 5
Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ........ 5
Uned 1 Canllawiau i Athrawon ........ 6
Profiadau Dysgu ........ 50
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 53


© WJEC CBAC Ltd.2025

# Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Drama wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2027, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Drama a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygiad Arholiad Ar-lein



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Drama yn cynnwys 3 uned. Cymhwyster llinol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Dyfeisio Theatr | Asesiad ymarferol di-arholiad | 40% |
| **Uned 2** | Perfformiad o Destun | Asesiad ymarferol di-arholiad | 30% |
| **Uned 3** | Dehongli Theatr | Arholiad ar-sgrin | 30% |



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Asesu
## Crynodeb o'r Asesiad

| **Uned 1: Dyfeisio Theatr**<br>***Asesiad ymarferol di-arholiad***<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**96 marc** |
|---|
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Ymateb i ysgogiadau a osodir gan CBAC, sy'n cael eu hasesu gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC. Bydd yr ysgogiadau ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd yr ysgogiadau'n cael eu newid yn flynyddol.<br>Gall dysgwyr ddewis naill ai actio **neu** ddylunio. Bydd dysgwyr yn creu, mireinio a pherfformio darn o theatr. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu Log Adfyfyriol o'r broses hefyd, mewn fformat heb ei ragnodi.<br>Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phump** o actorion. Gall hyd at **bedwar** dysgwr ychwanegol, a phob un yn gweithio ar sgìl dylunio gwahanol, weithio gyda phob grŵp perfformio. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

# Trosolwg o Uned 1

## Dyfeisio Theatr

Asesiad di-arholiad ymarferol a Log Adfyfyriol
Wedi'u marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC.
40% o'r cymhwyster
96 marc

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau a genres theatraidd
- datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran creu a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso'u sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw
- rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gallu i adfyfyrio, dadansoddi a gwerthuso eu penderfyniadau creadigol
- datblygu gwydnwch, penderfynoldeb a hyder dysgwyr.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrediad o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau a genres theatraidd. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno drama. Gallai archwilio ddigwydd hefyd drwy gyfrwng theatr fyw a/neu ddigidol, fel ffynonellau posibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio amrywiaeth, gan gynnwys gwahanol safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau sy'n cwmpasu Cymru a'r byd.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain ac ymateb i adborth gan bobl eraill fel proses barhaus trwy gydol y cyfnod datblygu, a fydd yn caniatáu iddynt wella'r perfformiadau y maent yn eu rhoi neu'r dyluniadau y maent yn eu cynhyrchu
- **creu** – bydd dysgwyr yn cyfrannu tuag at greu perfformiad dyfeisiedig mewn ymateb i ddewis o ysgogiadau a osodwyd gan CBAC.

Gall dysgwyr ddewis cwblhau'r uned hon fel actorion **neu** ddylunwyr, waeth beth fo'u llwybr dewisol yn Uned 2.
Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** o'r canlynol:
- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set a phropiau
- dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur.

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:
- greu a datblygu darn o theatr mewn ymateb i ysgogiad, gan ddefnyddio technegau ymarferwr theatr dylanwadol, cwmni neu nodweddion arddull theatraidd neu genre ac arddangos a chymhwyso eu sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw
- cynhyrchu Log Adfyfyriol.

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.

Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phump** o actorion. Gall pob grŵp gynnwys hyd at **bedwar** dylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.



© WJEC CBAC Ltd.2025

Bydd hyd y darn theatr hwn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:
- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor:7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud
- Grŵp o bum actor:11-16 munud.

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa **am o leiaf pum munud**.
Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn.
Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 96 o farciau.
Bydd yr ysgogiadau'n cael eu rhyddhau ar safle porth CBAC ym mis Medi yn y flwyddyn astudio gyntaf.
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

| | |
|---|---|
| 1.1.1 | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr |
| 1.1.2 | Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw |
| 1.1.3 | Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain |

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio | - |
| AA2 | Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio | 22.5% |
| AA3 | Adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. | 5% |
| AA4 | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatraidd a/neu berfformiadau | 12.5% |


© WJEC CBAC Ltd.2025

# Uned 1 Canllawiau i Athrawon

| 1.1 Dyfeisio Theatr | | |
|---|---|---|
| **Ymhelaethiad o'r Cynnwys** | | **Canllawiau i Athrawon** |
| 1.1.1<br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• (ar ôl archwilio amrediad o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau/genres perthnasol) creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr o fewn perfformiad dyfeisiedig.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• ddyfeisio perfformiad mewn ymateb i ysgogiad a osodwyd gan CBAC gan ddangos technegau ymarferwr theatr/cwmni theatr neu gonfensiynau dramatig arddull neu genre theatraidd penodol. | **Dulliau ar gyfer Uned 1:**<br>• Mae dyfeisio theatr yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu dychymyg, archwilio a gwthio eu creadigrwydd a chreu rhywbeth unigryw y maent yn teimlo y dylent rannu perchnogaeth ohono.<br>• Gall hefyd fod yn frawychus, yn rhwystredig ac yn ddadlennol. Mae dyfeisio theatr yn gwthio dysgwyr i dir newydd ac yn cyflwyno rhwystrau, dewisiadau pengaead a chymryd risgiau iddynt. Mae angen gwaith tîm, negodi a chymryd cyfrifoldeb. Mae'r broses ddyfeisio yn galw am amrywiaeth sylweddol o sgiliau ac yn eu meithrin; rhai penodol i'r pwnc, personol a rhyngbersonol.<br>• Am nad yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi cael llawer o brofiad o ddrama na pherfformio cyn eu cwrs TGAU, mae angen iddynt gael technegau a gwybodaeth ac amrywiaeth o brofiadau ymarferol er mwyn rhoi pwyntiau cyfeirio iddynt ar gyfer eu project dyfeisio yn Uned 1.<br>• Mae'n eithriadol o bwysig bod dysgwyr hyn cael y cyfle i archwilio amrywiaeth eang o ddrama wrth baratoi ar gyfer Uned 1. Mae'r flwyddyn gyntaf o gwrs TGAU dwy flynedd yn cynnig y cyfle i ddysgwyr brofi dewis amrywiol o arddulliau, ymarferwyr, cwmnïau a genres y gallant ddewis eu dylanwad ohonynt ar gyfer eu project yn Uned 1.<br>• Mae defnyddio blwyddyn gyntaf y cwrs i feithrin y sgiliau dyfeisio, y technegau a'r arddulliau hefyd yn ffordd dda o alluogi dysgwyr i feithrin hunanhyder drwy brofiad. Fel hyn, dros amser gall dysgwyr ddod yn fwy annibynnol wrth wneud penderfyniadau ac wrth fod yn greadigol, gyda'r athro yn eu harwain i hwyluso eu dyhead, gan eu hannog i fod yn ddyfeisgar ac yn wydn. Hefyd, mae'r annibyniaeth gynyddol hon yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth sgiliau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | **Pwyntiau atgoffa pwysig (o'r pecyn asesu):**<br>• Nid oes unrhyw gyfyngiad ar faint o amser y gall dysgwyr ei dreulio ar y gwaith o archwilio, creu a datblygu eu perfformiad dyfeisiedig.<br><br>• Ar ôl cychwyn ar y gwaith creu a datblygu, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i gyflawni'r gwelliannau hyn.<br><br>• Rhaid i athrawon weld syniadau dysgwyr ar waith o leiaf teirgwaith ar adegau gwahanol yn ystod y broses er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun a chwblhau'r ddogfennaeth awdurdodi angenrheidiol.<br><br>• Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gofynion, gan gynnwys yr ysgogiadau, y log adfyfyriol a'r grid asesu.<br><br>**Paratoi at Uned 1.**<br>**Cyflwyniad i ddyfeisio – meithrin hyder a sgiliau:**<br>• Mae angen i ddysgwyr deimlo'n hyderus i gymryd risgiau ac mae angen iddynt deimlo'n gyfforddus i allu datblygu syniadau'n greadigol drwy greu'n fyrfyfyr ac arbrofi ar y cyd.<br><br>• Ni ellir tanbrisio gwerth meithrin cydberthnasoedd grŵp cyfan ac ymddiriedaeth grŵp yn gynnar yn y cwrs. Mae hefyd yn werth ystyried gwthio dysgwyr allan o'r hyn sy'n gyfarwydd iddynt yn raddol drwy gyfres o weithdai a gweithgareddau magu hyder fel preliwd i'r broses ddyfeisio.<br><br>• Mae'r tabl isod yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer meysydd y gellid eu cwmpasu wrth baratoi ar gyfer tasg Uned 1. Syniadau yn unig yw'r rhain ac nid yw'n rhestr ragnodol na chynhwysfawr. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| **Diben (hefyd, gan gysylltu â'r Profiadau Dysgu a amlinellir isod)** | **Syniadau ar gyfer gweithgareddau** |
|---|---|
| Magu hunanhyder o ran llais | Cyfres o weithdai llais a arweinir gan athro, gan archwilio agweddau gwahanol ar y llais, er enghraifft:<br>• lefel sain<br>• tôn<br>• traw<br>• cyflymder<br>• distawrwydd a chymryd saib<br>• sgyrsiau disynnwyr<br>• gwneud sŵn<br>• seinluniau<br>• hymian a chanu. |
| Magu hunanhyder o ran defnyddio'r corff | Cyfres o weithdai a arweinir gan athro, gan archwilio agweddau gwahanol ar ddefnyddio'r corff, er enghraifft:<br><br>• lefelau o densiwn<br>• blodeuo a gwywo<br>• lluniau llonydd<br>• ychwanegu nodweddion anifeiliaid at gerdded<br>• gorliwio<br>• symudiadau disco o'r 70au wedi'u harafu gyda'r llygaid ar gau er mwyn osgoi cywilydd<br>• canoli<br>• meim<br>• ymdrechion Laban wedi'u symleiddio gan ganolbwyntio ar gyfeiriad, |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | (uniongyrchol/anuniongyrchol); pwysau (trwm/ysgafn); cyflymder (cyflym/estynedig) a llif (rhwym/rhydd)<br>• ymarferion ymddiriedaeth a chydbwysedd<br>• codiadau syml<br>• gwaith cyswllt syml. |
| | | Meithrin hunanhyder wrth berfformio | Ar yr adeg hon, gallai'r dysgwyr gael yr opsiwn i berfformio i'r dosbarth, i bâr arall, i'r athro yn unig, yn dibynnu ar eu hyder. Gellir datblygu gwydnwch a hyder drwy gynyddu lefel ganfyddedig y risg (maint a chyfansoddiad y gynulleidfa) dros gyfres o fân gyfleoedd perfformio.<br><br>• Tasgau pâr – dwy gath yn sgwrsio wrth ymweld â'r milfeddyg<br>• Tasg grŵp bach – mae pob person yn gydran o beiriant sy'n creu cynnyrch terfynol gyda symudiad a sain.<br>• Tasg unigol – monolog dyfeisiedig, er enghraifft, canolbwyntio ar lais am “bethau sy'n fy nghythruddo”.  Darn corfforol gyda llais – er enghraifft, peiriant golchi dillad yn siarad am ei fywyd wrth iddo weithio. |
| | | **Cyflwyniad i ddyfeisio theatr:**<br>• Mae angen i ddysgwyr ddeall beth yw dyfeisio ac mae angen iddynt brofi amrywiaeth o strategaethau dyfeisio fel y gallant feithrin dealltwriaeth o broses i'w dilyn pan fyddant yn creu eu darnau eu hunain. Dylid rhoi'r cyfle i bob dysgwr brofi amrywiaeth o rolau gan gynnwys actor, dylunydd a chyfarwyddwr wrth iddynt archwilio theatr. Bydd hyn yn eu helpu i ystyried rolau ei gilydd yn y project terfynol.<br>• Dylent gael cyfleoedd i ddysgu am y log adfyfyriol ac ymarfer coladu deunydd ac adfyfyrio ar eu proses a'u gwaith perfformio drwy ddadansoddi a gwerthuso. | |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | • I ychwanegu at hyn, gorau po fwyaf o ddeunydd perfformio y gall dysgwyr ei weld. Mae'n bwysig i ddysgwyr gael profiad o amrywiaeth o ddeunydd mewn arddulliau a ffurfiau gwahanol fel bod ganddynt gyfres o bwyntiau cyfeirio y gallant eu defnyddio i ysbrydoli eu gwaith eu hun ac fel y gallant feithrin eu dealltwriaeth o'r modd y mae perfformiad a dyluniad theatrig yn cyfleu ystyr i gynulleidfa.<br>• Bydd gosod cyfres o fân brojectau i ddysgwyr lle cânt eu haddysgu am arddull neu ymarferwr ac yna gweithio'n ymarferol gyda'r ymarferwr neu'r arddull hwnnw i gynhyrchu perfformiad gweithdy byr yn rhoi amrywiaeth o brofiadau a phwyntiau cyfeirio iddynt y gallant eu defnyddio ar gyfer y tair uned yn y cwrs TGAU.<br>• Gall actorion a dylunwyr gynllunio a chyflwyno eu syniadau a dylid rhoi cyfleoedd iddynt ddangos eu gwaith mewn cyd-destun perfformiad neu berfformiad gweithdy.<br>• Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall beth yw dyfeisio, ond yn bwysicaf bod ganddynt sawl dull a strategaeth y gallant eu defnyddio wrth iddynt weithio. Isod mae cysylltau a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddatblygu strategaethau i'r dysgwyr eu defnyddio: |

| Cyswllt/Adnodd | Cynnwys |
|---|---|
| Dyfeisio Theatr – Adnodd Drama | Awgrymiadau cyfarwyddo a dyfeisio drama |
| https://www.youtube.com/watch?v=-G9fwO4RgpU (https://www.geckotheatre.com/gecko-engage) | Awgrymiadau Gecko Theatre ar gyfer creu theatr |
| https://www.youtube.com/watch?v=47QhuLMLDL8 (https://www.nationaltheatre.org.uk/learn-explore/schools/teacher-resources/) | Proses ddyfeisio Rash Dash |
| https://www.youtube.com/watch?v=BC9uJrY9Bh8 (https://www.franticassembly.co.uk/frantic-digital) | Proses ddyfeisio Frantic Assembly |
| https://youtu.be/iW2fZ3CDWCk (https://www.geckotheatre.com/gecko-engage) | Symud a Mudo Gecko Theatre |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| https://youtu.be/5PQpxi7h_rc<br>(https://www.geckotheatre.com/gecko-engage) | Cynhyrchiad Gecko Theatre “The Time of your Life” |
| https://youtu.be/6WhMsHleWOs | Perfformiad “Robin Hood” International Devising Theatre |
| https://youtu.be/ui3k1wT2yeM<br>Teacher resources \| National Theatre | Theatr Ferbatim National Theatre |

**Syniadau ar gyfer archwilio sut i ymdrin ag ysgogiad – syniadau addysgu:**
Ceir enghreifftiau o ysgogiadau yn y Pecyn Asesu ategol (Tudalen 7) Porth CBAC

**Tasg bosibl**

- Gellid cyflwyno amrywiaeth o ysgogiadau gwahanol i'r dysgwyr (dyfyniad, cân, datganiad, paentiad, ffotograff, gwrthrych ac ati) fel rhan o garwsél a osodwyd yn y stiwdio neu'r ystafell ddosbarth. Gellid dewis yr ysgogiadau hyn i ysgogi cysylltiadau yn gynnil â themâu trawsbynciol er enghraifft cynaliadwyedd, hawliau dynol ac amrywiaeth, cydberthynas a rhywioldeb, cyd-destunau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.
- Mewn grŵp bach neu mewn parau, treuliwch 10 munud gyda phob ysgogiad ac atebwch y cwestiynau canlynol:
- **Ble, pryd, pwy, beth (sy'n digwydd/sydd wedi digwydd), pam?**
- Mae angen i'r atebion gynnwys **manylyn** er enghraifft, nid yw “yng Ngogledd Cymru” yn ddigon ar gyfer “ble?”. Byddai rhywbeth fel “y tu allan i Co-op Ffordd Bangor ym Mhenmaenmawr” yn fwy penodol ac yn arwain at fwy o bosibiliadau.
- Mewn sesiwn lawn, gellir gofyn am ymatebion y grŵp. Gallai'r athro wthio i gael atebion mwy manwl a mynd ar drywydd syniad dysgwr i ddangos sut gellid ei ddatblygu.



© WJEC CBAC Ltd.2025

**Datblygu eu syniad ymhellach:**

**Tasg bosibl**

1. Rhestrwch themâu neu faterion y mae eu syniadau wedi eu codi ar gyfer eu hoff linell stori
2. Defnyddiwch un neu ddwy o'r themâu hyn i ddatblygu'r syniad ymhellach
3. Trawsnewidiwch y cymeriadau yn y syniad
4. Defnyddiwch siart syml gan ddefnyddio ansoddeiriau i helpu i ddiffinio'r cymeriadau. Dylai'r dysgwyr geisio dewis ansoddeiriau sy'n disgrifio personoliaeth eu cymeriadau

| ENW | OEDRAN | ANSODDAIR 1 | ANSODDAIR 2 | ANSODDAIR 3 | CYSYLLTIAD Â CHYMERIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Gwnewch y gwaith yn dri dimensiwn:**

**Tasg bosibl**

Defnyddiwch luniau llonydd i ddangos adegau allweddol yn y stori, neu i ddangos cydberthnasoedd rhwng cymeriadau. Gallai'r rhain ddod yn fyw am 30 eiliad, gan symud y gwaith yn ei flaen drwy greu'n fyrfyfyr. Mae'r cyswllt isod yn archwilio tableaux a lluniau llonydd wrth ddyfeisio.

https://youtu.be/1QoQ0qdpfJo



© WJEC CBAC Ltd.2025

**Archwilio arddulliau ac ymarferwyr – dilyniannu ac addysgu syniadau:**

| **Dull posibl o addysgu Uned 1** | |
|---|---|
| Gweithgareddau magu hyder | Gweler uchod |
| Cyflwyniad i ddyfeisio – datblygu dealltwriaeth a phrofiad o ddyfeisio deunydd perfformio. | • Beth yw dyfeisio?<br>• Gweithio gydag ysgogiad (gweler uchod).<br>• Y broses ddyfeisio. |
| Cyflwyniad i elfennau dylunio | • Cyfres o sesiynau sy'n rhoi trosolwg i ddysgwyr ar set a phropiau, goleuo, sain a gwisgoedd, gwallt a cholur.<br>• Gall y rhain gynnwys gwylio darnau o berfformiad neu gael enghreifftiau a thrafod pa fath o ystyr y gallant eu cyfleu a sut.<br>• Bydd defnyddio realia fel llusernau, gwisgoedd, propiau, colur yn helpu i wneud y sesiynau hyn yn fwy rhyngweithiol. |
| **Project bach grŵp 1:** Gweithio gydag ysgogiad ac arddull, er enghraifft, naturiolaeth – archwilio ac arbrofi wrth ddyfeisio mewn arddull<br><br>Mae'r project bach hwn yn canolbwyntio ar brofi creu darn byr o berfformiad.<br><br>Defnyddiwch feintiau grŵp fel y nodir yn y fanyleb. | • Cyflwynwch naturiolaeth a chynhaliwch weithdy arno.<br>• Gwyliwch ddarn o berfformiad.<br>• Nodwch nodweddion nodweddiadol actio, goleuo, sain, gwisgoedd, gwallt a cholur, setiau a phropiau naturiolaidd.<br>• Cyflwynwch ysgogiad a defnyddiwch broses i'w archwilio i greu llinell stori a chymeriadau (grŵp cyfan)<br>• Dylai'r actorion ddysgu sut i ddatblygu cymeriad gonest gan ddefnyddio prosesau Stanislavski neu Katie Mitchell er enghraifft, ac ymchwilio a datblygu eu cymeriadau a'r olygfa. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dylech leihau amser rhedeg y darn terfynol er mwyn sicrhau bod y dasg yn hydrin. | • Dylai'r dylunwyr ymchwilio i syniadau ar gyfer eu hopsiwn dylunio a'u datblygu, gan ddefnyddio'r canllawiau gofynion sylfaenol a chanolbwyntio ar eu hymarferwr neu arddull dewisol.<br>• Proses ymarfer.<br>• Perfformiad. Os bydd amser yn brin, gallai'r dylunwyr gyflwyno eu gwaith i'w cyfoedion. |
| | | Cyflwynwch log adfyfyriol | • Beth ydyw a beth y mae angen iddo ei gynnwys?<br>• Taflen nodiadau ymarfer. |
| | | Sut i ddadansoddi a gwerthuso | • Dangos i ddysgwyr beth yw dadansoddiad a gwerthusiad da. |
| | | **Project bach grŵp 2:** Gweithio gydag ysgogiad ac arddull, er enghraifft, theatr gorfforol –<br><br>Project hirach gan roi amser i ddylunwyr (os yw'n briodol) gynhyrchu eu gwaith ar gyfer y perfformiad.<br><br>archwilio a phrofi dyfeisio mewn arddull gwahanol ac ymgorffori'r log adfyfyriol | • Cyflwynwch theatr gorfforol ac ymarferwyr allweddol a chynhaliwch weithdy arnynt.<br>• Gwyliwch ddarnau o amrywiaeth o berfformiadau arddull theatr gorfforol gwahanol.<br>• Nodwch nodweddion nodweddiadol theatr gorfforol ar gyfer actio, goleuo, sain, gwisgoedd, gwallt a cholur, setiau a phropiau.<br>• Cyflwynwch lyfrau nodiadau ymarfer – ar ôl pob ymarfer, dylai'r dysgwyr nodi beth a wnaethant, sut, pam a pham yr oedd yn ddefnyddiol neu'n llwyddiannus.<br>• Cyflwynwch ysgogiad newydd a defnyddiwch broses i'w archwilio i greu syniadau (grŵp cyfan).<br>• Dylai'r actorion weithio gydag amrywiaeth o dechnegau theatr gorfforol i ddatblygu eu syniad. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| | • Dylai'r dylunwyr ymchwilio i syniadau ar gyfer eu hopsiwn dylunio a'u datblygu, gan ddefnyddio'r canllawiau gofynion sylfaenol a chanolbwyntio ar eu hymarferwr neu arddull dewisol.<br>• Proses ymarfer.<br>• Sesiwn ar sut i droi cynnwys llyfr nodiadau ymarfer yn ddadansoddiad a gwerthusiad o log adfyfyriol.<br>• Defnyddio nodiadau i ysgrifennu dadansoddiad a gwerthusiad o'u gwaith yn ystod y broses.<br>• Perfformiadau ar fideo gyda holiaduron cynulleidfaoedd.<br>• Gall grwpiau drafod eu gwaith ar fideo, gyda'r amcan terfynol o helpu ei gilydd i nodi cynnwys ar gyfer eu logiau adfyfyriol.<br>• Dadansoddiad a gwerthusiad ysgrifenedig o'u gwaith eu hunain yn y perfformiad. |
| **Project bach grŵp 3:** Gweithio gydag arddull, ymarferwr, genre neu gwmni theatr arall | • Dylai'r dysgwyr weithio â mwy o ymreolaeth, gan ymarfer rhai o'r prosesau y maent wedi'u harchwilio'n gynharach, yn y cyfnod cyn perfformiad o'u gwaith.<br>• Gallai'r dysgwyr gynhyrchu log adfyfyriol arall, neu rannau o'r log. Neu, gellid rhannu rhannau gwahanol o'r log dros brojectau bach 2 a 3. |

**Creu'r darn arholiad terfynol:**

- Yn y bôn, mae'r dasg yn cynnwys pum cam – datblygu syniadau, adeiladu'r darn, mireinio'r darn, perfformio ac adfyfyrio ar y broses a'r perfformiad.



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | **Grwpio dysgwyr:**<br>• Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i grwpio dysgwyr ar gyfer Uned 1. Bydd rhai canolfannau yn penderfynu ar y grwpiau, gall eraill drafod dewisiadau dysgwyr ar gyfer arddull neu ymarferwr penodol i helpu i benderfynu ar y grwpiau. Efallai bydd rhai dysgwyr yn croesawu'r cyfle i allu enwebu dau ddysgwr arall yr hoffent gydweithio â nhw, a graddio eu dewisiadau arddulliadol. Yn y pen draw, yr athro sy'n adnabod ei ddosbarth orau a'r athro fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.<br><br>**Ymgeiswyr dylunio:**<br>• Bydd gallu'r ganolfan i ddarparu'r adnoddau i'r dysgwyr sy'n dewis dylunio set a phropiau, goleuo, sain neu wisgoedd, gwallt a cholur yn dylanwadu ar yr opsiynau dylunio sydd ar gael i'r dysgwyr. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr dylunio yn cael profiadau yr un mor ddwfn ac amrywiol ag ymgeiswyr actio. Maent yn rhan hanfodol o grŵp Uned 1 a dylent weithio'n agos gyda'r actorion wrth gynllunio, datblygu a mireinio eu dyluniadau wrth i'r darn esblygu. Yn ddelfrydol, bydd elfennau o'r dyluniad yn dechrau cael eu defnyddio a'u harbrofi gan y grwpiau wrth i'r gwaith ddatblygu; bydd mesur gwisgoedd, a rhoi cynnig ar wallt a cholur yn gynnar yn llywio penderfyniadau mireinio, ynghyd ag arbrofi â set a phropiau yn ystod ymarferion. Efallai y bydd angen i ddylunwyr goleuo addasu tanbeidrwydd neu leoliad llusernau wrth i newidiadau gael eu gwneud gan yr actorion; bydd angen i ddylunwyr sain arbrofi â dewisiadau sain, lefelau sain a gosod eu sain ar y cyd â'r actorion.<br><br>• Mae'n bwysig ceisio sicrhau bod dylunwyr yn osgoi wythnos derfynol llawn straen; gall hyn ddigwydd yn rhwydd os bydd y perfformwyr yn gwneud addasiadau y tu hwnt i'r terfyn amser. Bydd angen i hwn fod yn bwynt, y cytunir arno ymlaen llaw, lle na ddylid gwneud newidiadau i newid y gwaith dylunio yn sylweddol y tu hwnt iddo.<br><br>Mae gofynion sylfaenol ar gyfer cyflawni pob opsiwn dylunio:<br>**Dylunio goleuo:**<br>• 6 chyflwr gwahanol<br>• rhaid i'r dysgwyr weithredu'r bwrdd goleuo yn y perfformiad<br>• taflenni ciwiau. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | **Dylunio sain:**<br>• 6 chiw gwahanol<br>• rhaid i'r dysgwyr weithredu'r ddesg sain yn y perfformiad<br>• taflenni ciwiau.<br><br>**Dylunio set a phropiau:**<br>• creu set a phropiau a/neu wisgoedd ar gyfer perfformiad grŵp 1<br>• rhaid i'r dysgwyr drefnu'r bwrdd propiau/trefnu gofod perfformio cyn y perfformiad a darparu model o'r set. Gellir cyflwyno'r model mewn fformat digidol.<br><br>**Dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur:**<br>• 1 set o wisgoedd, gwallt a cholur llawn ar gyfer 2 gymeriad gwahanol (dau set o wisgoedd, gwallt a cholur i gyd)<br>• brasluniau o ddyluniadau gwisgoedd, gwallt a cholur.<br><br>**Meintiau grwpiau:**<br>• Dylai pob canolfan ystyried ei chyd-destun ei a'i dysgwyr ei hun wrth benderfynu ar feintiau grwpiau. Dylid anelu at sicrhau bod y perfformiadau terfynol o fewn yr amrywiaeth amseru a nodwyd. Dylai'r athrawon ystyried pa mor effeithiol y gall eu dysgwyr gynnal perfformiad mewn grwpiau mwy wrth gynhyrchu darnau hirach.<br><br>• Gall fod rhwng 2 a 5 actor mewn grŵp perfformiad. Gall pob grŵp perfformiad gael hyd at 4 dylunydd, gyda phob dylunydd yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.<br><br>**Amseriadau**<br>• Grŵp o ddau actor: 5-10 munud<br>• Grŵp o dri actor: 7-12 munud<br>• Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud<br>• Grŵp o bum actor: 11-16 munud.<br><br>• Nid yw nifer y dylunwyr yn effeithio ar amseru'r perfformiad. Er enghraifft, dylai perfformiad gan grŵp gyda dau actor a phedwar dylunydd bara rhwng 5 a 10 munud.<br>• Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa am o leiaf pum munud. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | **Dewis yr ysgogiad:**<br>• Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio pob ysgogiad. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi taflen i'r dysgwyr sy'n nodi pob ysgogiad ynghyd â geiriau caneuon wedi'u hargraffu (os oes caneuon yn yr ysgogiad) y gallant eu darllen wrth i'r gân gael ei chwarae. Gall hyn olygu bod un wers yn cael ei neilltuo ar gyfer pob ysgogiad.<br>• Mae hyn yn gynhyrchiol am ei fod yn rhoi cyfle i'r dysgwyr archwilio'r holl ysgogiadau, ac yn annog trafodaeth a syniadau y gellir dychwelyd atynt hyd yn oes os dewisir ysgogiad gwahanol.<br>• Gan ddefnyddio nodiadau o'u harchwiliad o arddulliau, ymarferwyr, genres a chwmnïau gwahanol a gynhaliwyd yn gynharach yn y cwrs, efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r dysgwyr lunio rhestr wirio o nodweddion a dyfeisiau allweddol y maent yn ystyried eu defnyddio yn eu gwaith. Bydd hyn yn eu helpu i sicrhau bod eu gwaith yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau, confensiynau a dyfeisiau sy'n briodol i'w hymarferwr, arddull, cwmni neu genre dewisol.<br><br>**Dewis arddull, ymarferwr, genre neu gwmni:**<br>• Mae'n well os gall dysgwyr nodi'r dewis hwn eu hunain, gyda rhywfaint o arweiniad, gan seilio eu dewis ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu neu ei brofi yn ystod y cwrs, beth yw eu cryfderau yn eu barn nhw a'r unigolion yn y grŵp.<br><br>**Ystyriaethau wrth ddewis y dylanwad:**<br>• Dylid gallu adnabod nodweddion yr ymarferwr, y cwmni, yr arddull neu'r genre yn y perfformiad a'r dyluniad. Dylai canolfannau archwilio amrywiaeth o'r rhain yn ddigon manwl i roi digon o wybodaeth a phrofiad i'r dysgwyr allu creu gwaith sy'n dangos y dull gweithio a ddewiswyd ganddynt yn effeithiol.<br>• Nid oes raid i ymgeiswyr dylunio ddilyn yr un dewis â'r ymgeiswyr actio. Er enghraifft, efallai y bydd actorion yn gweithio mewn arddull naturiolaidd gyda gwisgoedd naturiolaidd mewn darn dyfeisiedig, ond gallai dyluniad y set a'r propiau fod yn symbolaidd neu'n fynegiadol os bydd yn gweithio'n effeithiol o fewn cysyniad y darn. Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn mynd ymlaen i ddadansoddi a gwerthuso eu penderfyniad artistig mewn perthynas â'r dewis arddulliadol hwn yn y log adfyfyriol.<br>• Dylid gallu adnabod ymarferwyr, arddulliau, genres a chwmnïau theatr. Nid oes angen i'r cwmni theatr fod yn weithredol ar y funud. Os oes gennych unrhyw bryderon |



© WJEC CBAC Ltd.2025

ynghylch addasrwydd ymarferwr, cwmni, arddull neu genre, cysylltwch â CBAC cyn ymrwymo.

- Ymarferwyr ac arddulliau a ddefnyddir yn aml:

Mae'r rhestrau isod yn cwmpasu amrywiaeth o nodweddion y gallai dysgwyr eu defnyddio neu eu dangos yn eu gwaith o amrywiaeth o arddulliau ac ymarferwyr a ddefnyddir yn gyffredin. Ni fwriedir i'r rhestr fod yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr.

| Theatr gorfforol | Theatr epig Brecht | Naturiolaeth Stanislavski | Theatr gerdd | Theatr mewn addysg |
|---|---|---|---|---|
| symudiad araf; ailddirwyn | didactig | amgylchiadau penodol | canu | ffocws addysgol |
| gwaith cysylltu | dangos stori | os hud | dawnsio | dull uniongyrchol o gyfarch |
| meimio | dull uniongyrchol o gyfarch | unedau | deialog | adroddiad |
| gorliwiad | adroddiad | amcanion | monolog | ffeithiau ac ystadegau |
| symudiadau manwl gywir | chwarae sawl rôl | nod cyffredinol | corws | neges foesol gref |
| geiriau gyda symudiadau | gwaith ensemble | cof emosiwn | strwythur llinol neu episodig | chwarae sawl rôl |
| coreograffi | gestus | ymlacio | coreograffi | cyfranogiad y gynulleidfa |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | defnydd symbolaidd o wrthrychau | cerddoriaeth/cân; cyfosodiad | cylchoedd sylw | emosiynau clir | cynulleidfa darged glir |
| | | defnydd neu ddefod | spass/hiwmor | arsylwi | caneuon cymeriad | episodig |
| | | gwneud cyflyrau emosiynol yn gorfforol | placardiau | ymdeimlad o wirionedd | caneuon actol | cymeriadau ystrydebol neu wawdluniol |
| | | cydberthynas yn dangos drwy nodweddion corfforol e.e. agosrwydd, statws | lleisio cyfarwyddiadau llwyfan | tempo / rhythm | unawd | monologau |
| | | dilyniannau o symudiadau; dilyniannau o freuddwydion | tactegau dychryn; gogleisio a tharo; cyfosodiad | creu empathi | deuawd | canu a dawnsio |
| | | ailadrodd | tafluniad; cyflwyniadau PowerPoint | ataliaeth a rheolaeth | motiffau | placardiau |
| | | llinol neu aflinol | strwythur episodig/cyfres o episodau | cymeriadau credadwy | deialog a genir | PowerPoint |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| dull uniongyrchol o gyfarch; monologau | annaturiolaidd | manylyn realistig | naturiolaidd a/neu annaturiolaidd | cyfuniad o nodweddion naturiolaidd ac annaturiolaidd |
| naturiolaidd a/neu annaturiolaidd | mater gwleidyddol, cymdeithasol, moesol | | | adegau emosiynol |

| Theatr Gorfforol | Theatr epig Brecht | Naturiolaeth Stanislavski | Theatr Gerdd | Theatr mewn addysg |
|---|---|---|---|---|
| **Set a phropiau** | | | | |
| set a phropiau minimalaidd gall fod yn gynrychioliadol gallai hefyd fod yn fwy manwl a realistig yn dibynnu ar y math o theatr gorfforol tafluniad | set a phropiau minimalaidd a chynrychioliadol. Cynrychiolaeth syml a chlir o leoliad gallai'r propiau fod yn symbolaidd neu gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd Tafluniad Arwyddion a phlacardiau | mae set a phropiau yn creu amgylchedd realistig sy'n awgrymu cyfnod o amser, lleoliad, amser o'r dydd, awyrgylch a naws. | set a phropiau i ddangos lleoliad, naws, awyrgylch gall fod yn syml neu'n fanwl cynrychioliadol neu realistig Gall fod yn goeth, dros ben llestri ac yn theatraidd Lliw | set a phropiau syml; cynrychioliadol syml er mwyn gallu canolbwyntio ar y cynnwys cynrychiolaeth syml o leoliad tafluniad propiau amlbwrpas |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Goleuo** | | | | |
| | | goleuo i greu awyrgylch, naws<br><br>i dynnu sylw a diffinio<br><br>goleuo ochr<br><br>goleuo cylch<br><br>defnydd o liw<br><br>Offer goleuo arbennig<br><br>tafluniad | goleuo i ddangos y gweithredoedd yn hytrach na chreu naws ac awyrgylch<br><br>Metatheatraidd.<br><br>yn aml yn olau gwyn llachar, er bod cynyrchiadau arddull Brecht modern yn defnyddio lliw, tanbeidrwydd ac effeithiau goleuo eraill<br><br>gall y gynulleidfa fod wedi'i goleuo<br><br>tafluniad | mae goleuo yn creu amgylchedd realistig sy'n awgrymu lleoliad, amser o'r dydd, awyrgylch a naws.<br><br>palet lliw realistig<br><br>goleuo ymarferol<br><br>offer goleuo arbennig (specials) | goleuo i greu lleoliad, naws, awyrgylch<br><br>goleuo i dynnu sylw a phwysleisio<br><br>golau cylch<br><br>yn aml rydym yn gweld palet lliwiau eithaf llachar<br><br>Goleuo wedi'i gydamseru â cherddoriaeth | syml er mwyn dangos y gweithredoedd<br><br>goleuo i bwysleisio neu dynnu sylw<br><br>goleuo i ddangos ôl-fflachiau<br><br>gall y gynulleidfa fod wedi'i goleuo |
| | | **Sain** | | | | |
| | | sain i greu awyrgylch, naws llawn tensiwn, | sain i dynnu sylw, pwysleisio neu ddangos<br><br>defnydd o gerddoriaeth yn | effeithiau sain realistig;<br><br>ffynonellau sain gweithiol; | cerddoriaeth wedi'i recordio i'r perfformwyr ganu drosti | sain i dynnu sylw, pwysleisio neu ddangos |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | emosiwn, pwyslais;<br>cerddoriaeth,<br>seiniau awyrgylchol<br>seiniau amgylcheddol<br>troslais,<br>effeithiau sain | aml yn gwrthgyferbynnu â'r cynnwys<br>gall y perfformwyr greu'r sain yn fyw<br>defnydd amlwg, metatheatraidd o sain | i greu awyrgylch, naws, lleoliad.<br>seiniau awyrgylchol<br>seiniau amgylcheddol<br>effeithiau sain<br>cerddoriaeth i gyfleu emosiwn | sain i dynnu sylw at leoliad, awyrgylch, naws<br>motiffau cerddorol i gymeriadau<br>seiniau amgylcheddol<br>seiniau awyrgylchol<br>effeithiau sain<br>microffonau | sain i awgrymu lleoliad<br>cerddoriaeth gyfoes sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged<br>defnydd o effeithiau sain |
| | | **Gwisgoedd, gwallt a cholur** | | | | |
| | | gwisgoedd, gwallt a cholur naturiolaidd neu symbolaidd<br>Defnydd o ddillad lliwgar a rhydd;<br>ymarferol i symud ynddynt; | gwisgoedd, gwallt a cholur i ddangos yn glir swyddogaeth cymeriad yn y stori<br>dangos statws<br>archdeipaidd neu ystrydebol<br>cynrychioliadol<br>un eitem gwisg allweddol i | gwisgoedd, gwallt a cholur manwl, realistig a chredadwy<br>creu ymdeimlad o gymeriad, statws, cyfnod amser, galwedigaeth, oedran | mae'r gwisgoedd yn aml yn naturiolaidd<br>gwisgoedd, gwallt a cholur i ddangos cymeriad, cyfnod o amser, statws, galwedigaeth | gwisgoedd, gwallt a cholur syml i gynrychioli'r cymeriad, statws, cyfnod o amser, galwedigaeth mewn modd clir a syml.<br>hawdd chwarae sawl rôl. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| un eitem i ddiffinio cymeriad<br><br>dangos statws, cyfnod o amser<br><br>cyferbyniadau rhwng cymeriadau | gynrychioli'r cymeriad<br><br>golygu y gellir chwarae sawl rôl yn rhwydd | | mae'r lliw yn aml yn eithaf llachar<br><br>ymdeimlad theatraidd | |

Wrth gwrs, gallai canolfannau ddewis gweithio gyda sawl ymarferwr ac arddull gwahanol. Yng Nghanllaw Cyflwyno TGAU Drama (Atodiad A), bydd athrawon yn gweld rhestr o Ymarferwyr a Genres Theatr y gellir eu defnyddio i ddatblygu gwaith dysgwyr.

**Ymysg yr arddulliau a'r ymarferwyr eraill y gallai canolfannau eu hystyried mae:**

- Theatr Creulondeb
- Artaud
- Theatr Gyflawn (Total Theatre)
- Steven Berkoff
- Theatr y Gorthrymedig
- Augusto Boal
- Drama Sinc Cegin
- Ferbatim
- Emma Rice
- Katie Mitchell.

**Gallai'r dylunwyr arddulliau ystyried y canlynol:**

- Naturiolaidd
- Annaturiolaidd
- Epic/Arddull Brecht
- Mynegiadol
- Minimalaidd



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | • Symbolaidd<br>• Realaeth.<br><br>**Genres:**<br>Gallai'r dysgwyr ddewis gweithio gyda genre. Yn aml, bydd cyfuno genre ag arddull neu ymarferwr yn helpu i ychwanegu strwythur a ffurf i'r gwaith dyfeisiedig.<br>Gallai dewisiadau posibl gynnwys:<br>• Comedi<br>• Trasiedi<br>• Trasicomedi<br>• Ffars<br>• Melodrama<br>• Dychan<br><br>**Cwmnïau Theatr:**<br>• Mae theatr fodern yn cymysgu arddulliau a thechnegau, ac mae gan y rhan fwyaf o gwmnïau theatr eu “harddull tŷ” eu hunain. Yn aml, mae'n anodd categoreiddio cwmnïau theatr fesul arddull neu ymarferwr am eu bod wedi cyfuno dylanwadau.<br><br>• Gall fod yn gyffrous ac yn werth chweil dyfeisio darn yn arddull cwmni theatr; dylid atgoffa canolfannau ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth ddigonol o'r cwmni a'i waith.<br><br>• Mae angen i'r darnau dyfeisiedig ddefnyddio nodweddion arddull a dull y cwmni yn glir, a bydd angen dadansoddi a gwerthuso hyn yn y log adfyfyriol.<br><br>• Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer cwmnïau mae'r canlynol. Mae nifer o'r cwmnïau yn gweithio gydag ymarferwr neu arddull y gellir ei adnabod yn glir; mae gwaith rhai eraill yn fwy hybrid.<br>• Dim ond rhai syniadau a geir yma, ac ni ddylid bod y rhestr yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr.<br><br>Arad Goch — https://aradgoch.cymru/ |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| Berliner Ensemble (sefydlwyd gan Brecht. Delweddau cynhyrchu da yn arbennig o ddefnyddiol i ddylunwyr) | Der aufhaltsame Aufstieg des Arturo Ui (The Resistible Rise of Arturo Ui) \| berliner-ensemble<br><br>Die Mutter \| berliner-ensemble |
| Complicité | https://www.complicite.org/ |
| DV8 | https://dv8.co.uk/ |
| Eddie Ladd | https://eddieladd.cymru/ |
| Frantic Assembly | https://www.franticassembly.co.uk/ |
| Gecko | Gecko (geckotheatre.com) |
| National Theatre Wales | Croeso i National Theatre Wales \| National Theatre Wales |
| Paper Birds | https://thepaperbirds.com/ |
| RashDash | https://www.rashdash.co.uk/ |
| Splendid Productions | https://splendidproductions.co.uk/ |
| Theatr Bara Caws | https://www.theatrbaracaws.co.uk/ |
| Theatr Fran Wen | https://franwen.com/ |
| Theatr Genedlaethol Cymru | https://theatr.cymru/ |
| Theatr Iolo | Theatr Iolo |
| Theatr Na Nóg | https://theatr-nanog.co.uk/cy |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| Theatre Re | https://www.theatrere.co.uk/ |
| Volcano Theatre | https://volcanotheatre.wales/ |
| Wise Children<br>Kneehigh Theatre | Emma Rice \| Wise Children \| England (wisechildrendigital.com)<br><br>https://thisiskneehigh.co.uk/ |

**Tasg dyfeisio:**

- Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi tasg i'r dysgwyr lunio rhestr o “gynhwysion” y gellid disgwyl eu gweld mewn darn dyfeisiedig sy'n gweithio o fewn confensiynau neu dechnegau genre, arddull, cwmni neu ymarferwr penodol os nad yw yn y tabl uchod. Bydd hyn yn rhoi rhestr wirio ddefnyddiol iddynt ar gyfer eu dyfeisio a bydd hefyd yn galluogi'r athro i sicrhau bod dysgwyr yn deall yr hyn y mae angen iddo fod yn amlwg yn eu gwaith.

**Cynnal momentwm:**

- Gall canolfannau ddewis ymgorffori sawl terfyn amser dros dro yn eu proses ddyfeisio. Gallai'r rhan bennu dyddiad ar gyfer diwedd ffurfiol y broses o ddatblygu ymchwil a syniadau; dyddiad ar gyfer gorffen “drafft bras” cyflawn o'r gwaith a dyddiad ar gyfer cwblhau'r cyfnod mireinio. Fel rhan o'r amserlen hon, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys nifer o berfformiadau gweithdy byr neu ddangosiadau o'r gwaith.

- Bydd holiadur i'r gynulleidfa yn helpu i fireinio'r darn. Dylai'r dylunwyr geisio cynnwys elfennau o'u gwaith dylunio yn y dangosiadau hyn. Bydd y terfynau amser hyn yn helpu'r dysgwyr a'r athrawon i osgoi teimlo dan bwysau mawr tuag at ddiwedd y broses wrth i ddyddiad y perfformiad agosáu.

**Nodiadau ymarfer:**

- Bydd cadw nodiadau o ymarferion sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol sy'n berthnasol i'r lot adfyfyriol yn galluogi'r dysgwyr i goladu gwybodaeth wrth i'w gwaith



© WJEC CBAC Ltd.2025

ddatblygu. Yna gallant ddewis gwybodaeth allweddol o'u nodiadau ar gyfer eu log adfyfyriol ar ddiwedd y broses.

- Gallai'r nodiadau hyn gynnwys, er enghraifft, crynodeb byr o dechneg a defnyddiwyd, sut, pam a sut roedd yn llwyddiannus. Y llyfr nodiadau yw'r lle delfrydol i ddysgwyr nodi eu ffynonellau ymchwil, cynnwys mapiau meddwl, brasluniau, darnau o sgript. Yn y pen draw, bydd y llyfr nodiadau yn rhoi llawer o gynnwys y Log Adfyfyriol. Gallai'r ganolfan ddewis dylunio llyfryn wedi'i fformatio ymlaen llaw neu ddogfen ar-lein y gall dysgwyr ei defnyddio.

- Ynghyd â hyn, neu yn lle hynny, gall canolfannau gynnwys sesiynau ysgrifennu log adfyfyriol ynghyd â'u terfynau amser dros dro, gan alluogi dysgwyr i gynhyrchu'r log fel dogfen barhaus.

**Enghraifft o amserlen perfformiad arholiad (14 o wythnosau):**

| Wythnos | Gweithgaredd | Cerrig milltir dros dro | Nodiadau ac awgrymiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad i ysgogiad | | Mae'r broses o goladu log adfyfyriol yn dechrau drwy lyfr nodiadau ymarfer, a gaiff ei lenwi ar ôl pob ymarfer. |
| 2 | Dewis o ysgogiadau a datblygu syniadau | | Ceisio archwilio syniadau yn ymarferol.<br>Mae ymarferion yn parhau mewn gwersi gyda'r athro yn monitro; cyfleoedd i ymarfer amser cinio ac ar ôl ysgol hefyd o bosibl. |
| 3 | Dewis dylanwad | | Weithiau mae'n ddefnyddiol creu syniad yn gyntaf ac yna nodi pa arddull, cwmni |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ymarferwr allai weithio orau gyda nodau'r darn. |
| 4 | Datblygu | | Llunio drafft bras y darn gan ddefnyddio rhestr wirio technegau neu nodweddion. Mae'r ffocws ar greu deunydd a all fod yn eithaf bras ar y cam hwn. |
| 5 | Datblygu | | |
| 6 | Datblygu | | |
| 7 | Datblygu | Rhannu golygfa gydag adborth | Drafftio cynnwys log o bosibl yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r broses ddatblygu. |
| 8 | Datblygu/Mireinio | | |
| 9 | Datblygu/Mireinio | | |
| 10 | Mireinio | | |
| 11 | Mireinio | Rhannu eto o bosibl | Drafftio cynnwys log o bosibl yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r broses fireinio. |
| 12 | Perfformio | Ffilmio perfformiad byw | Gellid ei uwchlwytho a'i rannu â grwpiau unigol neu gallai aelod o'r grŵp drefnu bod ffôn yn ffilmio ac yn rhannu'r perfformiad wedyn. |
| 13 | Adfyfyrio | | Gwylio gwaith ar fideo a drafftio cynnwys log yn |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>dadansoddi ac yn gwerthuso'r perfformiad.</td></tr>
<tr><td>14</td><td>Adfyfyrio</td><td>Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r log</td><td>Gellid gorffen y log yn y gwersi neu gellid dechrau Uned 2 ar yr un pryd â gorffen y log.</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.1.2 Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</td>
<td>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:
<ul><li>ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</li></ul>
Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>(perfformio)
<ul>
<li>dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau perfformio mewn perthynas â nodau theatraidd yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis</li>
<li>cyfleu eu dehongliad o gymeriad(au) a chynnal ymgysylltiad cynulleidfa</li>
<li>cyfrannu at y perfformiad</li>
</ul>
(dylunwyr)
<ul>
<li>dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau dylunio mewn perthynas â nodau theatraidd yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis, fel sy'n berthnasol i'w opsiwn dylunio</li>
</ul>
</td>
<td>Perfformio:
<ul>
<li>Mae'n ddelfrydol os oes ymdeimlad o achlysur a chynulleidfa yr arholiad ei hun. Gobeithio y bydd y dysgwyr wedi ymarfer yn dda, yn hyderus yn eu gwaith ac ynddynt eu hunain. Gallai'r gynulleidfa fod yn nifer bach o bobl a wahoddir gan y perfformwyr, eu dosbarth eu hunain, neu'r dosbarth drama o'r flwyddyn iau.</li>
<li>Os dewisir theatr mewn addysg fel arddull, gall y gynulleidfa fod yn ddosbarth cynradd neu grŵp o flwyddyn 7. Gall rhai canolfannau hefyd fod am gael eu dysgwyr i berfformio eu gwaith i gynulleidfa ehangach ychydig cyn eu harholiad go iawn. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn am ei fod yn rhoi amgylchedd perfformio go iawn i'r dysgwyr a gall wneud iddynt deimlo'n fwy hyderus ac mewn rheolaeth o'u perfformiad yn yr arholiad, er na fydd pob ymgeisydd am ddangos ei waith i'w deulu neu rieni a dylai canolfannau ystyried y pwysau ychwanegol y gall hyn ei roi ar eu dysgwyr.</li>
</ul>
Canllawiau cyffredinol i helpu gyda'r arholiad:
<ul>
<li>Rhaid i'r perfformiadau gael eu recordio, eu storio a'u huwchlwytho i'w cymedroli.</li>
<li>Dylid gosod y camera ar drybedd sy'n rhoi golygfa glir o'r llwyfan cyfan. Dylid ei osod yn ddigon agos er mwyn sicrhau y gall y cymedrolwr weld manylion y perfformiad. Dylid profi'r camera cyn y perfformiad i sicrhau bod popeth yn gweithio'n iawn, yn enwedig y sain a'r ffocws.</li>
<li>Os bydd grŵp wedi dewis defnyddio llwyfannu promenâd, yna bydd yn hollol</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | • cyfleu eu dehongliad o'r darn(au) a chynnal ymgysylltiad cynulleidfa<br>• sicrhau bod eu dyluniad yn cyfrannu at y perfformiad. | dderbyniol i'r camera ddilyn y gwaith, fodd bynnag, dylid ystyried y bydd angen cymedroli'r gwaith ac y bydd angen cyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan yn glir.<br><br>• Dylid recordio cyflwyniad a pherfformiad pob grŵp fel un cynnig parhaus. Mae'n ddefnyddiol cael dysgwyr i ymarfer eu cyflwyniadau yn ystod y broses ymarfer, ac mae'n gwbl resymol gadael iddynt ddefnyddio cerdyn atgoffa gyda'u gwybodaeth wedi'i hysgrifennu arno er mwyn sicrhau nad y cyflwyniad fydd y rhan anoddaf o'r arholiad.<br><br>• Yn ystod y perfformiad, os bydd yr ymgeiswyr yn anghofio llinellau a bod saib, ni ddylid golygu hyn allan.<br>• Er mwyn sicrhau cysondeb i bob grŵp ac i sicrhau bod yr arholiad yn cael ei ffilmio'n esmwyth, ar ôl y cyflwyniad, gallai fod yn ddefnyddiol i'r athro ofyn i'r grŵp fynd i'w safleoedd cychwynnol, gofyn am flacowt pan fyddant yn barod a chyfrif i lawr “3,2,1” i ddechrau'r perfformiad a rhedeg yr amserydd.<br><br>**Defnyddio'r recordiad ar gyfer y log adfyfyriol:**<br>• Mae angen i'r dysgwyr wylio eu perfformiadau yn ôl cyn gynted â phosibl ar ôl yr arholiad.  Dylai canolfannau ystyried sut gellid hwyluso hyn. Gellid rhoi mynediad i'r dysgwyr wylio'r recordiad gan y grŵp pan fydd wedi cael ei roi ar system y ganolfan; neu, os bydd polisi canolfan yn caniatáu, gallai'r dysgwyr ofyn i aelod o'r gynulleidfa ffilmio perfformiad eu grŵp y gellir wedyn ei rannu â'r grŵp yn gyflym. Yn amlwg, mae angen i'r canolfannau ystyried mai gwaith arholiad yw hwn ac mai dim ond y dysgwyr unigol y dylid ei weld at ddiben y logiau ac na ddylid ei rannu'n gyhoeddus dan unrhyw amgylchiadau.<br><br>**Blacowts, newid golygfa ac amseru;**<br>• Dylid osgoi blacowts rhy hir ac ni ddylent gyfrif tuag at amser rhedeg cyffredinol y perfformiad. Dylid ymarfer beth sy'n digwydd yn y blacowt yn drylwyr fel rhan o'r broses o baratoi er mwyn nodi materion a sicrhau y gall trawsnewidiadau mewn blacowt fod yn esmwyth ac yn effeithlon.<br><br>• Os bydd angen newid set yn fanwl, efallai na fydd yn ymarferol gwneud hyn mewn |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | tywyllwch llwyr; yn yr achos hwn, mae'n gwbl dderbyniol i'r olygfa ddod i ben gyda blacowt, yna gall golau gwaith gwan (golch o olau oer) godi'n araf i alluogi'r dylunydd set i newid y set yn ôl y gofyn. Bydd golau gwaith yn pylu i ddim a bydd yr olygfa nesaf yn dechrau.<br><br>• Gallai fod angen i ddylunydd gwisgoedd newid gwisg ar gymeriad neu newid ei golur, neu gallai fod angen i ddylunydd goleuo newid gel mewn golau ochr yng nghanol perfformiad. Eto, mae'n gwbl dderbyniol i hyn ddigwydd o dan olau gwaith er mwyn gallu cyflawni'r dyluniad yn effeithiol.<br><br>• Fodd bynnag, dylid stopio'r amserydd er mwyn i hyn ddigwydd a'i ailddechrau pan fydd y perfformiad yn parhau.<br><br>**Ymgeiswyr dylunio:**<br>• Mae angen i ymgeiswyr dylunio fod yn bresennol. Dylent gyflwyno eu hunain ar ddechrau'r perfformiad ynghyd â'r ymgeiswyr actio, gan gynnwys eu henw, rhif ymgeisydd ac opsiwn dylunio.<br><br>• Rhaid i ymgeiswyr sain a goleuo weithredu'r byrddau sain neu oleuo yn y perfformiad.<br><br>• Fel y nodir uchod, gallant newid neu addasu eu gwaith dylunio, fel sy'n briodol, yn ystod y perfformiad.<br><br>**Amgylchiadau annisgwyl:**<br>• Gobeithio y bydd yr arholiad yn ddiwrnod cyffrous a gwerth chweil ac yn ddathliad o lawer o waith caled. Fodd bynnag, weithiau bydd amgylchiadau annisgwyl yn digwydd i dorri ar draws y perfformiad, fel larwm tân. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen i'r perfformiad stopio.<br><br>• Mae'n bwysig sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un profiad teg a chyfartal ar ddiwrnod yr arholiad. Pan fydd yr ymyriad wedi pasio, dylai'r grŵp yr effeithiwyd arno ailddechrau ei berfformiad *o'r adeg y torrwyd ar ei draws, a dylid ailddechrau ffilmio ar yr adeg hon.* |



© WJEC CBAC Ltd.2025

- Wrth gyflwyno'r fideo i'w gymedroli, byddai'n cynnwys dwy ran.
- Ni fyddai'n briodol gadael i un grŵp ailddechrau a chael tro arall pan na chafodd yr holl grwpiau eraill yr opsiwn hwn. Os bydd unrhyw amgylchiadau annisgwyl yn codi, rhowch wybod i CBAC.

- Ymysg y pwyntiau pwysig i'w hystyried mae amser perfformiad unigol a gwaith sy'n rhy fyr o lawer.

- Wrth gwrs, mewn perfformiad, gallai'r actorion adael a chyrraedd ar gyfer golygfa wahanol; gall rhai actorion fod yn bresennol ym mhob golygfa. Ar y llaw arall, gall rhai perfformiadau fod yn waith ensemble gyda phob perfformiad yn rhyngweithio gyda'i gilydd am gyfnod estynedig.

- Er mwyn cyrraedd pob band marciau, dylai pob actor ryngweithio yn y gofod am bum munud o leiaf.

- Mewn sefyllfaoedd lle mae dysgwr yn rhyngweithio am lai na 5 munud, dylid rhoi ystyriaeth fanwl i farciau'r ymgeisydd. Os bydd ymgeisydd ymhell islaw'r trothwy 5-munud, er enghraifft, os bydd yn perfformio am ddau funud neu lai, mae'n debygol y bydd y marciau a roddir yn y bandiau isaf.

- Os bydd perfformiad grŵp o fewn yr ystod amser, nid yw'n golygu o reidrwydd y gall pob perfformiwr gyrraedd pob band marciau. Er enghraifft, os mai dim ond am 2 funud y bydd un actor ar y llwyfan ac yn rhyngweithio, yna dylid ystyried hyn wrth asesu'r dysgwyr.

**Enghreifftiau o senarios amseru:**

| **Senario** | **Cyfanswm hyd y darn** | **Sylwadau** | **Rhy fyr o lawer?** |
|---|---|---|---|



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae grŵp o bedwar actor yn gweithio mewn ensemble theatr gorfforol gymhleth a soffistigedig iawn ac ar y llwyaf, yn rhyngweithio â'i gilydd ar gyfer y perfformiad cyfan. | 8 munud<br><br>*(y fanyleb: Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud)* | Er ei bod yn ymddangos bod y darn yn rhy fyr, dylid ystyried y ffaith bod gan bob perfformiwr ran gyfartal gyda dwyster sylweddol am 8 munud, ac mae'n amlwg y byddai'r ymgeiswyr hyn yn dangos sgiliau a fyddai'n eu galluogi i gyrraedd pob band. | Nac ydy |
| | | Mae grŵp o bedwar actor yn perfformio am 10 munud mewn arddull naturiolaidd. Dim ond am 2 funud y mae un actor ar y llwyfan. Mae dau ar y llwyfan am 10 munud ac mae'r pedwerydd actor ar y llwyfan am 7 munud. | 10 munud (y fanyleb: Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud) | Mae'r darn o fewn yr amseriadau. Mae tri o'r actorion yn rhyngweithio am fwy na 5 munud ac mewn egwyddor, byddent yn gallu cyrraedd pob band. Mae'n annhebygol y byddai'r actor sydd ond yn perfformio am 2 funud yn gallu cyrraedd y bandiau uchaf am fod ei berfformiad yn rhy fyr o lawer. | Nac ydy |
| | | Mae grŵp o bum actor yn perfformio yn arddull Brecht. | 6 munud (Y Fanyleb: Grŵp o bedwar actor: 11-16 munud) | Mae'r darn yn rhy fyr o lawer. | Ydy |
| | | Mae perfformiad gyda thri actor a heb | 10 munud | Mae'r blacowts hir yn golygu bod yr actorion yn perfformio | Ydy |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| unrhyw ddylunwyr yn para 10 munud ond mae'n cynnwys tri blacowt rhwng golygfeydd sy'n dod i gyfanswm o 6 munud. | (y fanyleb; grŵp o dri actor 9–14 munud) | am 4 munud. Mae'n annhebygol y byddant yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf. | |

**Gwaith sy'n hirach na'r uchafswm amser:**

- Dylai athrawon atgoffa grwpiau bod gan eu gwaith uchafswm amser. Wrth ddatblygu ac ymarfer y gwaith, dylid annog dysgwyr i amseru eu darnau, ac yn ystod y broses fireinio, bydd angen cwtogi'r gwaith os bydd perygl y bydd yn rhy hir.

- Nid oes cosb am waith sy'n hirach na'r terfyn amser, fodd bynnag, dim ond gwaith hyd at yr uchafswm amser y dylid ei asesu. Ni fydd cymedrolwyr yn edrych ar waith ar ôl i'r uchafswm amser gael ei gyrraedd ac o ganlyniad, dim ond gwaith hyd at yr uchafswm amser fydd yn cael ei ystyried yn y broses gymedroli.

- Mae'r amseriadau wedi'u dylunio i sicrhau bod y broses yn ddichonadwy i ganolfannau ac yn hygyrch i ddysgwyr. Yn hytrach na cheisio creu darnau hir, gallai'r dysgwyr ystyried ychwanegu dyfnder a mireinio eu gwaith drwy gymhwyso nodweddion ymarferwr neu arddulliadol manwl.
- Yn arbennig gyda gwaith mewn arddull naturiolaidd, gall fod yn anodd cyflawni syniadau gyda llinellau plot cymhleth iawn o fewn amser perfformiad byr. Gallai dysgwyr ystyried a fyddai canolbwyntio ar foment neu gydberthynas benodol o fewn llinell plot gymhleth olygu bod cymeriadu manwl a rhyngweithio mwy estynedig yn eu perfformiad dyfeisiedig.

**Mae angen i'r perfformiad alluogi'r dysgwyr i wneud y canlynol:**
(actorion)

- dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau perfformio mewn perthynas â nodau theatraidd yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis
- cyfleu eu dehongliad o gymeriad(au) a chynnal ymgysylltiad cynulleidfa
- cyfrannu at y perfformiad.



© WJEC CBAC Ltd.2025

(dylunwyr)

- dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau dylunio mewn perthynas â nodau theatraidd yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis, fel sy'n berthnasol i'w opsiwn dylunio
- cyfleu eu dehongliad o'r darn(au) a chynnal ymgysylltiad cynulleidfa
- sicrhau bod eu dyluniad yn cyfrannu at y perfformiad.

**Ymysg yr enghreifftiau o sut gellir dangos y rhain mae:**
**Actorion**

| Sgiliau corfforol | Sgiliau lleisiol | Rhyngweithio |
|---|---|---|
| ystum | traw | rhugldeb ciwiau |
| llonyddwch | cyflymder/tempo | cyswllt llygaid |
| rhugldeb | saib | cyflymder a rhugldeb perfformiad |
| mynegiant | acen | gwrando ac ymateb |
| osgo | lefel sain | rhyngweithio â'r gynulleidfa (pan fo'n briodol ac yn berthnasol) |
| mynegiant wyneb | eglurder | rhyngweithio â'r set/propiau/gwisgoedd (pan fo'n briodol ac yn berthnasol) |
| symudiadau | tôn | |
| pellter rhwng actorion (cynefineg) | | |

**Dylunwyr:**

- Yn yr un ffordd ag y bydd dylunio goleuo a sain yn cynnwys cyfres o gyflyrau a chiwiau gwahanol, gallai dylunwyr set a phropiau a dylunwyr gwisgoedd, gwallt a



© WJEC CBAC Ltd.2025

cholur ystyried sut gallai eu dyluniad ddatblygu neu newid yn ystod y perfformiad.

| Goleuo | Sain | Set a phropiau | Gwisgoedd, gwallt a cholur |
|---|---|---|---|
| tanbeidrwydd | cerddoriaeth | y gofod perfformio e.e.: cynllun, lefelau | defnyddiau/ffabrigau |
| canolbwyntio | effeithiau sain | lleoliad set a phropiau | dillad e.e. arddull, maint, cyflwr, cyfnod o amser |
| ongl | seiniau byw | esgyll/fflatiau | steiliau gwallt |
| offer goleuo arbennig/gobos | seiniau wedi'u recordio | addurno set | wigiau |
| tafluniadau | lefel sain | propiau | colur a |
| lliw | datsain/atsain | dodrefn | colur corff |
| mathau o lanternau | ffynonellau sain | tafluniad | colur effeithiau arbennig |
| lleoliad ffynhonnell oleuo | mwyhad gan gynnwys y defnydd o ficroffonau | lliwio | cyfwisgoedd |
| rhuglder ciwiau | lleoli ffynonellau sain ar lwyfan | gwead/ffabrigau defnydd o ddefnyddiau | lliw/patrwm |
| | | mynd ar ac oddi ar y llwyfan | |
| | | llinellau gweld | |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | • Rhaid i'r gwaith hefyd fod yn gysylltiedig â nodau'r ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis. Cyfeiriwch at y rhan flaenorol i weld enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gynnwys. #YmarferwyracArddulliauaDdefnyddirynAml<br>• Ceir rhagor o fanylion ac arweiniad ar asesu yn y Pecyn Asesu ategol. Porth CBAC |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso<br>• gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ac effaith eu dewisiadau creadigol sy'n gysylltiedig â'u:<br>  ◦ hymateb i'r ysgogiad a ddewiswyd<br>  ◦ dewis o ymarferwr/cwmni/arddull/genre<br>  ◦ dull o gymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio. | **Log Adfyfyriol**<br>• Mae'r log adfyfyriol yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith yn y broses ac ym mherfformiad terfynol UNED1. Nid oes fformat wedi'i ragnodi ar gyfer y lot adfyfyriol, gan alluogi'r dysgwyr i gyflwyno eu gwybodaeth yn y fformat sydd fwyaf addas iddynt fel unigolion.<br><br>• Mae'n bwysig ystyried hydrinedd y fformat a ddewiswyd i sicrhau y gall dysgwyr gyfathrebu'n effeithiol drwy eu fformat dewisol ac y gellir bodloni gofynion technolegol y fformat. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fformatau sy'n defnyddio fideo.<br><br>• Dylai canolfannau ystyried y gofyniad i uwchlwytho'r logiau adfyfyriol i'w cymedroli a dylent fod yn fodlon y gellir cyflawni hyn mor effeithlon ac mor esmwyth â phosibl o safbwynt y ganolfan, er mwyn osgoi cymryd llawer o amser yn ddiangen.<br><br>• Rhaid i ymgeiswyr dylunio gynnwys tystiolaeth o'u dyluniad terfynol yn eu log, fel sy'n briodol i'r sgìl a ddewiswyd ganddynt, a allai gynnwys y canlynol: Manyleb CBAC Drama.<br><br>**Dylunio goleuo:**<br>• taflenni ciwiau<br>• plot goleuo<br>• bwrdd naws<br><br>**Dylunio sain:**<br>• taflenni ciwiau<br>• plot sain<br>• bwrdd naws<br><br>**Dylunio set a phropiau:**<br>• model o set<br>• cynllun llawr<br>• ffotograffau o set a byrddau propiau |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | **Dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur:**<br>• brasluniau o'r dyluniad terfynol<br>• ffotograffau o'r dyluniadau mewn perfformiad (gellid eu tynnu yn ystod ymarferion gwisgoedd)<br>• bwrdd naws.<br>**Ymysg y fformatau posibl mae'r canlynol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):**<br>• Dogfen wedi'i theipio neu ei hysgrifennu. Gall hyn gynnwys atodiadau a/neu ddeunydd eglurhaol.<br>• Cyflwyniad PowerPoint (neu debyg) gyda disgrifiad sain neu drawsgrifiad<br>• Cyflwyniad PowerPoint (neu debyg) wedi'i ffilmio.<br>• Recordiad sain<br>• Sgwrs i gamera ar fideo<br>• Cyfres o flogiau o adegau allweddol gyda throslais/sylwebaeth<br>• Sain neu fideo ar fformat cyfweliad<br><br>• Mae'n bwysig sicrhau bod y fformat neu'r fformatau a ddewisir ar gyfer y log creadigol yn ddichonadwy o ran amser, adnoddau a logisteg. Efallai y bydd canolfannau hefyd am ystyried:<br><br>**Pa mor fanwl y gall fod angen i'r log fod?**<br>• Bydd pob dysgwr yn canfod lefel her wahanol wrth lunio'r log adfyfyriol ac felly mae angen i ganolfannau ystyried eu cyd-destunau a'u dysgwyr penodol eu hunain. Yn y bôn, mae'r log yn gofyn i'r dysgwyr adfyfyrio ar dri maes drwy ddadansoddi a gwerthuso.<br><br>Ar gyfer ymgeiswyr **actio**:<br>• pam dewiswyd yr ysgogiad a sut mae wedi dylanwadu ar y perfformiad terfynol.<br>• sut cafodd nodau artistig yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau perfformio'r arddull/genre o'u dewis eu cynnwys yn eu perfformiad terfynol.<br>• sut gwnaeth sgiliau perfformio'r dysgwr ei hun gyfrannu at ba mor effeithiol oedd y perfformiad terfynol.<br><br>Ar gyfer ymgeiswyr **dylunio**:<br>• pam dewiswyd yr ysgogiad a sut dylanwadodd ar y dyluniad terfynol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | • sut cafodd nodau artistig yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau dylunio'r arddull/genre o'u dewis eu cynnwys yn y dyluniad terfynol.<br>• sut gwnaeth ei sgiliau dylunio gyfrannu at ba mor effeithiol oedd y perfformiad terfynol.<br>• Yn ystod proses adfyfyrio'r dysgwr, caiff ei wahodd i siarad am *beth* a wnaeth, *sut, pam* a *pam yr oedd yn llwyddiannus (ai peidio).*<br>• Wrth asesu'r log, mae'n bwysig peidio â chyfystyrru nifer y pwyntiau a wnaed â marciau, ond defnyddio'r cynllun marciau i asesu'r log yn gyfannol a rhoi'r gwaith yn y band priodol.<br>• Dylai athrawon a dysgwyr ystyried y canlynol:<br>  • a yw'r log ar y cyfan: yn fanwl; yn gymwys; yn sylfaenol; yn gyfyngedig; neu a yw'n cynnwys dim dadansoddiad neu werthusiad?<br>  • A yw'r tri maes wedi'u cwmpasu?<br>  • A oes amrywiaeth o enghreifftiau a pha mor fanwl yw lefel y dadansoddiad a'r gwerthusiad?<br><br>• Gallai log manwl gwmpasu ehangder a dyfnder yn effeithiol iawn, gan adfyfyrio ar bob un o'r tri maes â nifer o enghreifftiau a dadansoddiad a gwerthusiad manwl, neu gall nodi nifer llai o enghreifftiau ond gyda dadansoddiad a gwerthusiad manwl iawn.<br><br>• Gallai log sylfaenol gwmpasu'r tri maes gyda rhai enghreifftiau a rhywfaint o ddadansoddi a gwerthuso sylfaenol. Efallai y bydd lefel anghyfartal o fanylion ar draws y tri maes.<br><br>**Hyd Log Adfyfyriol**<br>• Fideo neu sain – ni roddir unrhyw ganllawiau penodol o ran hyd hyn, ond er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn cael ei hystyried, mae'n debygol y byddai rhwng 3 a 7 munud.<br><br>• Ysgrifenedig – ni roddir unrhyw ganllawiau penodol o ran hyd hyn, ond byddai'n llai o lawer nag 800 o eiriau.<br><br>• Dylid ystyried faint o amser i'w ddyrannu mewn gwers i'r log adfyfyriol. Er enghraifft, rhoddir arweiniad a chyngor i'r dysgwyr yn y dosbarth a disgwylir iddynt gynhyrchu'r |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | log yn annibynnol neu caiff amser ei ddyrannu i gynhyrchu'r log yn ystod amser gwers.<br><br>**Pryd i gynhyrchu'r log adfyfyriol.**<br>• Mae'n arfer da sicrhau bod dysgwyr yn gwybod beth yw'r log adfyfyriol a beth y mae angen iddo ei gynnwys cyn iddynt ddechrau ar y project dyfeisio. Wrth i'r gwaith ddatblygu, gellid rhoi cyfleoedd iddynt gymryd saib ac adfyfyrio ar eu cynnydd, eu sgiliau a'r technegau a ddefnyddir. Bydd yr adegau adfyfyriol hyn yn rhoi cynnwys ar gyfer y log terfynol.<br><br>• Gall canolfannau benderfynu y bydd dysgwyr yn cynhyrchu rhannau o'r log wrth iddynt weithio; neu, gall rhai canolfannau benderfynu y bydd dysgwyr yn coladu deunydd yn ystod y broses, ac, ar ôl y perfformiad byddant yn gallu dewis deunydd maent am ei gynnwys yn eu log terfynol.<br><br>• Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i pryd, sut a lle caiff y logiau fideo neu sain eu recordio. Efallai bod gan ddysgwyr fynediad at ofod ar wahân ar gyfer recordio yn ystod gwers neu, gallai fod yn briodol trefnu recordiadau amser cinio neu ar ôl yr ysgol.<br><br>**Ystyriaethau ar gyfer fformatau log adfyfyriol posibl:**<br>• Dogfen wedi'i theipio neu ei hysgrifennu. Gall hyn gynnwys atodiadau a/neu ddeunydd eglurhaol.<br>• Gallai'r ddogfen hon fod wedi'i theipio neu ei hysgrifennu â llaw. Gellid ei rhannu'n adrannau ag is-benawdau. Gallai gynnwys deunydd eglurhaol, ffotograffau o ymarfer a/neu berfformiad efallai, darnau o'r sgript ddyfeisio sy'n dangos addasiadau dros amser, brasluniau dylunio a/neu ffotograffau; darnau o waith ymchwil; cysylltau, gwefannau a dyfyniadau.<br>• Mae'n bwysig bod y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad clir a ddylai fod yn amlwg yn hytrach na'n ymhlyg. Er enghraifft, dylid ystyried a yw cyfres o ddelweddau o ymarfer yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad, neu a yw'n dogfennu'r broses yn unig.<br><br>**Cyflwyniad PowerPoint (neu debyg) gyda disgrifiad sain neu drawsgrifiad**<br>• Os bydd dysgwyr yn dewis defnyddio rhaglenni cyflwyno e.e. PowerPoint, mae'n |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | bwysig ystyried bod angen i'r cyflwyniad gynnwys dadansoddiad a gwerthusiad clir. At ddibenion cymedroli, efallai na fydd PowerPoint (neu sleidiau wedi'u hargraffu) yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad digonol heb drawsgrifiad o'r cyflwyniad a roddwyd. Gallai'r PowerPoint gael ei leisio.<br><br>**Cyflwyniad PowerPoint (neu debyg) wedi'i ffilmio.**<br>• Os defnyddir y fformat hwn, dylai canolfannau ystyried yr angen i sicrhau bod y fideo yn dangos yn glir y sleidiau a ddefnyddir ac y gellir clywed yr ymgeisydd yn glir. Gall canolfannau ddewis uwchlwytho'r PowerPoint ynghyd â'r fideo o'r dysgwr.<br><br>**Recordiad sain**<br>• Gall hyn fod ar ffurf araith wedi'i recordio. Neu, gallai'r ymgeiswyr ddewis llunio cyfres o recordiadau byr yn ystod y broses ac ar ôl y perfformiad. Mae'n bwysig bod y recordiadau sain hyn yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad. Efallai bydd rhai dysgwyr am recordio ar eu ffonau neu ddyfeisiau; bydd angen i ganolfannau ystyried a yw hyn yn dderbyniol neu'n briodol yn eu cyd-destunau eu hunain. Mae'n bwysig ystyried sut mae'r recordiadau hyn yn cael eu storio, a oes risg iddynt gael eu dileu a sut byddan nhw'n cael eu huwchlwytho / trosglwyddo.<br><br>**Sgwrs i gamera ar fideo**<br>• Gallai hyn fod ar ffurf dysgwyr yn siarad yn uniongyrchol i'r camera. Gall yr arddull fod yn ffurfiol neu'n gymharol anffurfiol ond yn briodol ar gyfer y dasg a'r gynulleidfa. Gall dysgwyr ddefnyddio deunyddiau ategol er enghraifft gallent ddarllen darnau byr o sgript neu chwarae darnau byr o'u perfformiad ar liniadur neu ffôn i'r camera.<br>• Efallai bydd rhai dysgwyr am olygu eu haraith a defnyddio effeithiau fideo; dylid ystyried hydrinedd y fformat, a dylai athrawon a dysgwyr fod yn ymwybodol faint o amser y gallai'r broses hon ei chymryd. Efallai bydd rhai dysgwyr am recordio ar eu ffonau neu ddyfeisiau; bydd angen i ganolfannau ystyried a yw hyn yn dderbyniol neu'n briodol yn eu cyd-destunau eu hunain. Mae'n bwysig ystyried sut mae'r recordiadau hyn yn cael eu storio, a oes risg iddynt gael eu dileu a sut byddan nhw'n cael eu huwchlwytho / trosglwyddo.<br><br>**Cyfres o flogiau o adegau allweddol gyda throslais/sylwebaeth**<br>• Gall dysgwyr ddewis recordio cyfres o fideos neu flogiau byr dros gyfnod y project |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | dyfeisio. Mae'n bwysig bod y fideos hyn yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad. Gall yr arddull fod yn ffurfiol neu'n gymharol anffurfiol ond yn briodol ar gyfer y dasg a'r gynulleidfa. Gall dysgwyr ddefnyddio deunyddiau ategol er enghraifft gallent ddarllen darnau byr o sgript neu chwarae darnau byr o'u perfformiad ar liniadur neu ffôn i'r camera.<br><br>• Efallai bydd rhai dysgwyr am olygu eu haraith a defnyddio effeithiau fideo a golygu clipiau fideo o waith; dylid ystyried hydrinedd y fformat, a dylai athrawon a dysgwyr fod yn ymwybodol o faint o amser y gallai'r broses hon ei chymryd. Efallai bydd rhai dysgwyr am recordio ar eu ffonau neu ddyfeisiau; bydd angen i ganolfannau ystyried a yw hyn yn dderbyniol neu'n briodol yn eu cyd-destunau eu hunain. Mae'n bwysig ystyried sut mae'r recordiadau hyn yn cael eu storio, a oes risg iddynt gael eu dileu a sut byddan nhw'n cael eu huwchlwytho / trosglwyddo.<br><br>**Sain neu fideo mewn fformat cyfweliad neu sgwrs**<br>• Gallai hyn fod ar ffurf log adfyfyriol mewn arddull sgwrs/cyfweliad wedi'i recordio. Gallai athro ddewis eistedd gyda dysgwr a gofyn cwestiynau am ei gynnydd a'i berfformiad. Gallai'r arddull fod yn gymharol ffurfiol (cyfweliad) neu'n fwy anffurfiol (sgyrsiol). Gallai dysgwyr ddefnyddio nodiadau ar gyfer hyn.<br><br>**Enghreifftiau o sut gallai dysgwyr gysylltu proses a pherfformiad yn eu logiau adfyfyriol.**<br>• O fewn y log adfyfyriol mae angen dadansoddi a gwerthuso proses a pherfformiad. Isod mae rhai ffyrdd posibl y gellid gwneud hyn ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn llwybrau actio a dylunio: |

| **Dysgwr sy'n dewis llwybr 'Actor/ion'** | | |
|---|---|---|
| **Maes ffocws** | **Ffocws ar broses** | **Cysylltu â'r perfformiad** |
| • Pam dewiswyd yr ysgogiad a sut mae wedi dylanwadu ar y perfformiad terfynol. | Gallai'r dysgwr siarad am sut a pham gwnaeth agwedd neu | Gall y dysgwr nodi adeg neu adegau yn y perfformiad terfynol lle cafodd y syniad hwn ei gyfleu yn glir, gan drafod beth |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | agweddau ar yr ysgogiad dynnu ei sylw. Gall drafod sut a pham datblygodd ei syniad ar ôl gwneud gwaith ymchwil. Gallai siarad am sut roedd am i'r syniad hwn fod yn glir yn y perfformiad. | ddigwyddodd, sut, pam a pham roedd yn llwyddiannus. |
| | | • Sut cafodd nodau artistig yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau perfformio'r arddull/genre o'u dewis eu cynnwys yn y perfformiad terfynol. | Gallai actor sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i weithio gyda deuawd cadair mewn ymarfer, a gwneud sylw am ba mor effeithiol ydyw. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y ddeuawd cadair yn ei ffurf derfynol yn y perfformiad a thrafod sut cafodd ei pherfformio, pam, a pham roedd yn effeithiol, gan dynnu sylw efallai at sut roedd yr addasiadau wedi gwneud i'r ddeuawd gadair gyfathrebu'n fwy effeithiol. |
| | | • Sut gwnaeth sgiliau perfformio'r dysgwr ei hun gyfrannu at ba mor effeithiol oedd y perfformiad terfynol. | Gallai'r dysgwr gyfeirio at yr agwedd ar ei sgiliau corfforol oedd fwyaf heriol iddo wrth ymarfer y ddeuawd cadair. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar ei sgiliau corfforol yn y ddeuawd cadair, trafod yr hyn a wnaeth, sut, pam a pham yr oedd yn effeithiol. Gall drafod un neu fwy o sgiliau corfforol fel ystum a/neu rwyddineb. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| **Dysgwr sy'n dewis llwybr 'Dylunio'** | | |
| **Maes ffocws** | **Ffocws ar broses** | **Cysylltu â'r perfformiad** |
| • Pam dewiswyd yr ysgogiad a sut dylanwadodd ar y dyluniad terfynol. | Gallai'r dysgwr siarad am sut a pham gwnaeth agwedd neu agweddau ar yr ysgogiad dynnu ei sylw. Gall drafod sut a pham datblygodd ei syniad dylunio ar ôl gwneud gwaith ymchwil. Gallai drafod sut roedd am i'r syniad dylunio hwn fod yn glir yn ei ddyluniad ar gyfer y perfformiad. | Gall y dysgwr nodi adeg neu adegau yn y perfformiad terfynol lle cafodd y syniad dylunio hwn ei gyfleu yn glir, gan drafod beth a ddefnyddiwyd, sut, pam a pham roedd yn llwyddiannus. |
| • Sut cafodd nodau artistig yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau dylunio'r arddull/genre o'u dewis eu cynnwys yn y dyluniad terfynol. | Gallai **dylunydd goleuo** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i ddefnyddio golau cylch gwyn dwys ar gymeriad mewn deuawd cadair. Gall roi sylw ar effeithiolrwydd ei benderfyniad.<br><br>Gallai **dylunydd sain** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i i ddefnyddio trac clwb ewfforig o 2016 gyda deuawd cadair. Gall roi sylw ar effeithiolrwydd ei benderfyniad. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y ciw goleuo yn y perfformiad a thrafod sut cafodd ei gyflawni, pam, a pham roedd yn effeithiol, gan dynnu sylw efallai at y modd roedd addasiadau i'r amser pylu wedi gwneud y ciw goleuo yn fwy effeithiol.<br><br>Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y ciw sain yn y perfformiad a thrafod sut cafodd ei gyflawni, pam, a pham roedd y dyluniad yn effeithiol, gan dynnu sylw efallai at y modd roedd addasiadau i'r |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | amrywiad i'r lefel sain wedi gwneud y ciw sain yn fwy effeithiol. |
| | | | Gallai **dylunydd set a phropiau** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i ddefnyddio arddulliau gwahanol o gadair mewn deuawd cadair. Gall roi sylw ar effeithiolrwydd ei benderfyniad. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar wahanol arddulliau o gadair yn y ddeuawd cadair yn y perfformiad a thrafod sut cawson nhw eu defnyddio, pam, a pham roedd y dyluniad yn effeithiol, gan dynnu sylw efallai at y modd roedd addasiadau i gyflwr y cadeiriau wedi gwneud y dyluniad yn fwy effeithiol. |
| | | | Gallai **dylunydd gwisgoedd, gwallt a cholur** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i gael cymeriad yn rhwbio ei golur yn ystod deuawd cadair. Gall roi sylw ar effeithiolrwydd ei benderfyniad. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y ciw goleuo yn y perfformiad a thrafod sut cafodd ei gyflawni, pam, a pham roedd yn effeithiol, gan dynnu sylw efallai at y modd roedd addasiadau i'r amser pylu wedi gwneud y ciw goleuo yn fwy effeithiol. |
| | | • Sut gwnaeth ei sgiliau dylunio gyfrannu at ba mor effeithiol oedd y perfformiad terfynol. | Gallai **dylunydd goleuo** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i osod 'birdies' ar hyd ochr flaen y llwyfan. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y defnydd o'r 'birdies' ar adeg benodol, gan drafod beth ddigwyddodd, sut, pam a pham roedd yn effeithiol. Gall siarad am un neu fwy o sgiliau dylunio goleuo, fel ei |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddefnydd o danbeidrwydd a/neu liw. |
| | | | Gallai **dylunydd sain** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i recordio troslais. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y defnydd o'r troslais ar adeg benodol, gan drafod beth ddigwyddodd, sut, pam a pham roedd yn effeithiol. Gall siarad am un neu fwy o sgiliau dylunio sain, fel ei ddefnydd o lefelau sain a/neu ddatsain. |
| | | | Gallai **dylunydd set a phropiau** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol siarad am sut a pham gwnaeth y penderfyniad i ddefnyddio blociau llwyfan yn lle gwely. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y defnydd o'r "gwely" bloc llwyfan ar adeg benodol, gan drafod beth ddigwyddodd, sut, pam a pham roedd yn effeithiol. Gall siarad am un neu fwy o sgiliau dylunio set a phropiau, fel ei ddefnydd o liw a/neu linellau golwg effeithiol. |
| | | | Gallai **dylunydd gwisgoedd, gwallt a cholur** sy'n gweithio yn arddull theatr gorfforol drafod sut a pham gwnaeth y penderfyniad i gael pob actor i wisgo oferôls. | Gallai'r dysgwr ganolbwyntio ar y defnydd o'r ofarôls ar adeg benodol, gan drafod beth ddigwyddodd, sut, pam a pham roedd yn effeithiol. Gall siarad am un neu fwy o sgiliau dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur, fel ei |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | <table><tr><td></td><td></td><td>ddefnydd o'r dewis o ffabrig a/neu batrwm.</td></tr></table><br>**Dilysu'r Log Adfyfyriol:**<br>• Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gofynion, gan gynnwys yr ysgogiadau, y log adfyfyriol a'r grid asesu.<br><br>• Rhaid i athrawon weld o leiaf un fersiwn ddrafft o'r log adfyfyriol ond nid oes hawl ganddynt ddarparu adborth ysgrifenedig cyn cyflwyno'r gwaith yn derfynol. Rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gyngor cyffredinol yn unig, ni chaiff athrawon gynnig arweiniad penodol ar sut i wella'r gwaith. Rhaid i'r athro lofnodi'r ddogfen ddilysu er mwyn dilysu mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r log adfyfyriol.<br><br>Ar ôl cyflwyno'r log adfyfyriol i'w athro i'w asesu, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach iddo. Gweler y pecyn asesu ategol i gael rhagor o wybodaeth. Porth CBAC |



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| profi amrywiaeth o berfformiad(au) a/neu weithdai proffesiynol, naill ai'n bersonol neu ar-sgrin | *1.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr.*<br>*1.1.2 Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.*<br><br>• Bydd gwylio amrywiaeth o berfformiadau o waith (yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol) wrth archwilio arddulliau, ymarferwyr, genres a chwmnïau gwahanol yn rhoi dealltwriaeth well i ddysgwyr ynghylch beth yw'r arddull a sut gellid defnyddio elfennau technegol o fewn yr arddull penodol hwnnw.<br><br>• Bydd defnyddio ffrydiau byw, teithiau i'r theatr, gweithdai (ar-lein neu fyw) yn rhoi amrywiaeth eang o gyfeiriadau a phrofiadau i'r dysgwyr y gallant eu haddasu, eu datblygu a'u defnyddio yn eu proses ddyfeisio a'u perfformiad eu hunain. Gallai fod yn bosibl cydweithredu â chanolfan arall i drefnu gweithdy ar y cyd gyda chwmni neu ddarparwr; yn aml bydd cynyrchiadau theatr yn cynnal sesiwn holi ac ateb ar gyfer perfformiad penodol; yn aml bydd cwmnïau teithiol yn cynnig gweithdai mewn lleoliad gyda gostyngiadau ar gyfer tocynnau a lleoedd mewn gweithdy; gall creu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol lleol, cwmnïau theatr neu leoliadau arwain at brojectau cydweithredol a chyfleoedd i ehangu profiadau dysgwyr o berfformio a dylunio theatr. |
| profi amrywiaeth o rolau – gan gynnwys fel perfformiwr, dylunydd, cyfarwyddwr, cynhyrchydd a rheolwr llwyfan | *1.1.1 creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr.*<br>*1.1.2 datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.*<br><br>• Bydd dyrannu rolau gwahanol i ddysgwyr mewn project bach yn eu galluogi i ddeall yn fwy effeithiol, drwy ymchwil ac arbrofi'n ymarferol, ystyriaethau rolau gwahanol a fydd, yn ei dro, yn rhoi dealltwriaeth fwy cyfannol iddynt o'r modd y mae theatr yn cyfleu ystyr mewn amrywiaeth o ffurfiau.<br>• Mae llawer o adnoddau ar-lein sy'n cynnig dealltwriaeth o ofynion rolau gwahanol. |
| datblygu hyder wrth roi a derbyn adborth, hyrwyddo meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol | *1.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr.*<br>*1.1.2* Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio ***neu*** ddylunio mewn perfformiad byw.<br>*1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain.*<br><br>• Ffilmio, gwylio a thrafod effeithiolrwydd adeg benodol mewn ymarfer. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| | • Gwylio cyfoedion a rhoi adborth iddynt ar sgìl penodol, er enghraifft llais, gyda dau sylw cadarnhaol ac un “gwell fyth os”.<br><br>• Adolygu adeg yn ystod ymarfer a nodi beth sydd ddim yn gweithio ac wedyn creu datrysiad posibl.<br><br>• Adolygu eu proses a'u perfformiad ar gyfer y dyddiadur adfyfyriol. |
| cael cyfleoedd i fentro, creu'n fyrfyfyr a goresgyn heriau creadigol | *1.1.1 creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr.*<br>*1.1.2 datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.*<br>*1.1.3 adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain.*<br><br>• Datblygu hunanhyder yn gynnar yn ystod y cwrs i annog dysgwyr i gymryd risgiau wrth greu'n fyrfyfyr yn ddiweddarach. Bydd pennu lleiafswm amser ar gyfer byrfyfyrio golygfa neu adeg yn cyflwyno mwy o risg, ond bydd yn creu mwy o ddeunydd, gan oresgyn heriau creadigol.<br><br>• Bydd rhoi cyfle i bob dysgwr gynllunio a chyflwyno darn ymarfer byr sydd â'r nodo archwilio un o'i syniadau ei hun gan ddefnyddio techneg ymarferwr dethol yn cynyddu'r risg ond yn magu hunanhyder ac yn helpu i symud y gwaith yn ei flaen.<br><br>• Annog dysgwyr i roi cynnig ar bob syniad yn ymarferol yn hytrach na thrafod posibiliadau a derbyn na fydd pob cynnig yn gweithio. Bydd hyn yn helpu i fagu hyder oherwydd bydd gan bawb berchnogaeth o ddatblygiad ymarferol y gwaith, ac y rhoddwyd cynnig ar syniadau nad ydynt yn gweithio a'u bod wedi cael eu harchwilio.<br><br>• Annog ffordd o feddwl “beth os?” a gwerthfawrogiad bod angen cymryd risgiau er mwyn bod yn wreiddiol; bydd creu mwy o adegau na'r hyn y bydd ei angen yn rhoi amrywiaeth ehangach o ddeunydd i'w ddatblygu a'i fireinio, gyda rhywfaint o ddeunydd yn cael ei roi i'r naill ochr. Bydd hyn yn annog gwydnwch creadigol, a dealltwriaeth y bydd y broses yn cynnwys gwrthod syniadau.<br><br>*1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain.*<br><br>• Bydd mabwysiadu: dull *syniad – cynnig – trafod* yn golygu y gellir adfyfyrio'n gyflym ac yn rhoi cyfle i ddod o hyd i ddatrysiadau creadigol a'u trafod. |
| cymryd rhan mewn rhyw fath o berfformiad cydweithredol | *1.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr.*<br>*1.1.2* Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio ***neu*** ddylunio mewn perfformiad byw.<br>*1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain.*<br><br>• Dewis technegau ymarferwr penodol i sicrhau bod y perfformiad terfynol yn cyfleu prif syniad yn effeithiol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| | • Cymryd rhan mewn perfformiadau bach fel actor neu ddylunydd.<br><br>• Cyflwyno syniadau ei grŵp yn gynnar yn y broses gydag enghreifftiau byr o'i waith sy'n mynd rhagddo.<br><br>• Rhannu adegau gweithdy hirach â grŵp arall yng nghanol y broses.<br><br>• Defnyddio dulliau mireinio i ddatblygu ac ychwanegu manylion a soffistigeiddrwydd i'w berfformiad neu ei waith dylunio wrth iddo gael adborth ac adfyfyrio ar ei sgiliau.<br><br>*1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain.*<br><br>• Dylid annog dysgwyr i adolygu a gwerthuso eu gwaith a gwaith eraill yn rheolaidd. Gall hyn fod ar ffurf sylw cyfiawn cyflym, defnyddio rhestr dicio, gwylio recordiadau o'u perfformiadau gweithdy a phrojectau bach eu hunain a dadansoddi a gwerthuso effeithiolrwydd y darn o ran cyfleu ystyr neu eu perfformiadau eu hunain neu berfformiadau eraill, naill ai'n anffurfiol drwy drafodaeth neu ar ffurf ysgrifenedig, gan ymarfer y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y log adfyfyriol. |
| meithrin ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel bo'n briodol | *1.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr.*<br>*1.1.2* Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio ***neu*** ddylunio mewn perfformiad byw.<br>*1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain.*<br><br>• Dylai dysgwyr ystyried priodoldeb eu cynnwys a chael eu harwain gan y ganolfan, yn enwedig os byddant am archwilio materion sensitif. Mae angen annog dysgwyr i gynhyrchu gwaith sy'n uchelgeisiol ac yn ddifyr ond i ystyried ble mae'r llinell. Gallai addysg gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r broses archwilio er enghraifft fod yn faes diddorol i'w drafod a bydd yn helpu dysgwyr i lywio eu penderfyniadau. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

<table>
<tr><th colspan="4">Llinynnau Cwricwlwm i Gymru</th></tr>
<tr><th colspan="4">Themâu sy'n trawstorri</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod Drama yn eu herio i ystyried eu cynefin a'r posibiliadau sydd ganddynt i lywio'r byd lle maent yn byw ac effeithio arno. Drwy astudiaeth amrywiol o destunau dramâu a chrefft theatr, gwahoddir dysgwyr i ymfalchïo yn eu treftadaeth ddiwylliannol eu hunain fel ffordd o gyfrannu'n gadarnhaol at y gymdeithas lle maent yn byw.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>1.1.2</td><td>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</td><td>• Mae Uned 1 yn cynnig digon o gyfleoedd i gynnwys y llinyn hwn. Wrth astudio ac ymchwilio i ymarferwyr, arddulliau, genres a chwmnïau ac wrth iddynt ddatblygu syniadau ysgogiadau, bydd dysgwyr yn dod ar draws amrywiaeth o safbwyntiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar draws amrywiaeth eang o gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol. Bydd archwilio'r gydberthynas rhwng eu safbwyntiau a'u hardal leol eu hunain a safbwyntiau unigolion eraill yn helpu i feithrin dealltwriaeth o'u hunain fel rhan o gymuned fyd-eang.<br><br>Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:<br>• Gallai ysgogiad dyfeisio ddatblygu a chreu perfformiad theatr gorfforol sy'n archwilio gwrthdaro rhwng cymunedau gwledig a threfol. Gall 'Dawns Ysbrydion' Eddie Ladd ddylanwadu ar hyn ynghyd ag ymchwil i ddigwyddiadau presennol neu ddiweddar a</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | archwiliwyd. Gellir datblygu'r syniad i ddangos tebygrwydd rhwng profiadau unigolion o wrthdaro yn y gymuned leol mewn gwledydd eraill.<br>• Gallai darn dyfeisiedig ddilyn arddull ferbatim, gan archwilio effaith y pandemig diweddar drwy ddefnyddio ymchwil o wledydd a lleoliadau gwahanol i gysylltu pobl drwy brofiad a rennir. Gallai dysgwyr ddefnyddio arddull naturiolaidd neu ddewis arddull corfforol gan ddefnyddio syniadau yn *'Can We Talk About This'* DV8. |
| Cynaliadwyedd | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynaliadwyedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn ac wrth astudio'r materion hyn, caiff dysgwyr eu grymuso i roi newid ar waith er gwell.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynaliadwyedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *1.1.1* | *creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr* | • Mae'r ysgogiad a roddwyd yn hwyluso amrywiaeth eang o bosibiliadau ar gyfer cynnwys archwilio themâu trawsbynciol, gan gynnwys syniadau sy'n archwilio cynaliadwyedd. Mae'r broses ddyfeisio yn galluogi'r dysgwyr i archwilio, trafod a mynegi eu pryderon a'u rhwystredigaethau ynghylch materion amgylcheddol. Bydd deall bod dull cynaliadwyedd o greu theatr ac o berfformio yn bwysig yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau am amrywiaeth eang o fanylion yn eu gwaith, o ddefnyddio golau naturiol mewn ymarferion lle bo'n bosibl i wneud dewisiadau cynaliadwy gyda'u syniadau dylunio. |
| | *1.1.2* | datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw | |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gellid rhoi tasg ymarfer dyfeisio i'r dysgwyr greu a datblygu darn theatr mewn addysg gan ddefnyddio ysgogiad sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd.<br><br>• Gallai pob dysgwr ddewis opsiynau digidol wrth wneud nodiadau, cynllunio, creu mapiau meddwl ar gyfer eu syniadau.<br>• Gallai dylunwyr weithio gyda dulliau mwy cynaliadwy, er enghraifft gallai dylunwyr set a phropiau ddewis addasu, ailgylchu ac ailddefnyddio wrth ddylunio.<br>• Gallai dylunwyr gwisgoedd, gwallt a cholur ystyried ffynonellau mwy cynaliadwy ar gyfer eu gwisgoedd – siopau elusen, eBay, addasu, ailddefnyddio, ailgylchu, uwchgylchu, newid ac ati.<br>• Gallai dylunwyr goleuo ystyried a chyfrifo'r egni a ddefnyddir gan lusernau, archwilio dulliau arloesol amgen o oleuo eu gwaith, er enghraifft, ffonau symudol; llusernau LED; canhwyllau LWD, ac ati. Yna gallent ddefnyddio eu canfyddiadau i ddylanwadu ar eu penderfyniadau dylunio.<br>• Ceir ffynonellau gwybodaeth eraill o ran Cynaliadwyedd mewn<br><br>TGAU Drama yma:<br>• https://theatregreenbook.com/sustainableproductions-toolkit/<br>• https://theatregreenbook.com/sustainable-productions-case-studies/<br>• Sustainable Approaches to Theatre Making (royalholloway.ac.uk). |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="2">Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod ein bodolaeth a'n dynoliaeth barhaus yn dibynnu ar gyd-barch a chydgyfrifoldeb i bawb gael eu trin yn deg.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>1.1.1<br><br>1.1.2<br><br>1.1.3</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td><td>Enghraifft<br><br>• Mae'r ysgogiad a roddwyd ar gyfer Uned 1 yn hwyluso amrywiaeth eang o bosibiliadau ar gyfer cynnwys archwilio themâu trawsbynciol, gan gynnwys syniadau sy'n archwilio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r broses greadigol wrth ddyfeisio yn galluogi dysgwyr i archwilio profiadau ac adfyfyrio arnynt mewn amgylchedd diogel a chynhwysol. Bydd ymchwilio i ymarferwyr a chwmnïau a dysgu amdanynt yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr weld sut mae themâu a materion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi bod yn ddylanwadol neu wedi cael eu harchwiliad drwy berfformiad. Mae dyfeisio eu gwaith eu hunain yn galluogi'r cyfle i ddechrau deall y byd drwy lygaid rhywun arall a chreu empathi. Bydd y cyfle i ddadansoddi a gwerthuso llwyddiant eu gwaith yn y log adfyfyriol yn cyfrannu at eu syniad o beth sy'n bwysig iddynt ac yn datblygu hyn.<br><br>• Gallai darn dyfeisiedig o theatr gorfforol gyfoes archwilio agweddau gormesol tuag at rywioldeb. Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i archwilio eu meddyliau a'u hadweithiau eu hunain mewn amgylchedd diogel, sy'n eu galluogi i uniaethu â safbwyntiau a phrofiadau gwahanol a'u hystyried a chyfleu eu syniadau a'u hymatebion drwy eu</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | perfformiad. Gallai hyn ddefnyddio monologau neu drosleisiau i gyd-fynd ag amrywiaeth o dechnegau 'Frantic Assembly', gan gyfleu ac archwilio tensiynau mewn teuluoedd cyfoes gwahanol mewn modd corfforol.<br>• Gallai darn theatr mewn addysg gan ddefnyddio 'Arad Goch' fel ymarferwr dylanwadol ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 newydd ganolbwyntio ar heriau cydberthnasoedd a chyfeillgarwch wrth bontio i'r ysgol uwchradd o'r ysgol gynradd. Gallai gyflwyno amrywiaeth o ddata, ffeithiau a phrofiadau yn seiliedig ar brofiadau'r perfformwyr eu hunain.<br>• Gallai'r log adfyfyriol drafod effeithiolrwydd cyflwyniad y cynnwys yn seiliedig ar daflenni sylwadau cynulleidfaoedd. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr>
<td rowspan="3">Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth</td>
<td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod y byd rydym yn byw ynddo yn esblygu'n barhaus a bod gennym gyfrifoldeb a rennir i drin pawb â pharch ac fel unigolyn yn ei rinwedd ei hun.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth yn yr addysgu a dysgu:</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfeirnod y Fanyleb</td>
<td>Ymhelaethiad</td>
<td>Enghraifft</td>
</tr>
<tr>
<td>1.1.1<br><br>1.1.2<br><br>1.1.3</td>
<td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td>
<td>• Mae dyfeisio yn galluogi dysgwyr i archwilio a herio stereoteipiau a chanfyddiadau; mae ymchwilio i ddeunydd ar gyfer y project dyfeisiedig yn hwyluso trafodaeth am safbwyntiau a barn wahanol ac mae angen derbyn ac ymdrechu i ddeall safbwyntiau a chredoau gwahanol.<br><br>• Gall enghreifftiau penodol o anghyfiawnder neu ragfarn hawliau dynol a hawliau'r unigolyn, boed yn lleol, cenedlaethol neu'n rhyngwladol ddod yn ddylanwadau pwerus mewn perfformiad sy'n ceisio tynnu sylw at anghyfiawnder ac annog gwerthfawrogiad o amrywiaeth. Mae adfyfyrio ar y gwaith yn sicrhau ystyriaeth o sut cafodd neges neu safbwynt ei gyfleu'n effeithiol.<br><br>Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:<br>• Gallai dysgwyr ymchwilio i wybodaeth am fudo a ffoaduriaid ac archwilio gwaith perfformio cysylltiedig a fydd yn dylanwadu ar ddarn am benderfyniadau'r ffoaduriaid hyn i adael eu cartrefi, er enghraifft:<br>    • “Flight Pattern” Crystal Pite: UK UOR Autumn Campaign BAH OLV 16x9 15s V1 Q2 TKT NonMarvel (youtube.com)</td>
</tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Gecko Movement and migration: https://youtu.be/iW2fZ3CDWCk<br><br>• Gallai'r darn ddefnyddio theatr Epig i wahodd y gynulleidfa i ystyried triniaeth cymeriad sy'n wahanol mewn rhyw ffordd, gan roi'r cymeriad hwnnw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau ar y penderfyniadau a wnaiff wrth i'w iechyd a'i lesiant ddechrau dirywio. Gallai hyn gysylltu â chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol drwy archwilio'r modd y gall y gymuned leol drin ac ystyried ceiswyr lloches, ynghyd â gwylio gwaith gan ymarferwyr rhyngwladol fel rhan o'r ymchwil.<br><br>• Gallai ysgogiad o res o dai a'u ffenestri dan goed greu darn dyfeisiedig naturiolaidd sy'n archwilio dinistriad rhan helaeth o Fae Teigr yng Nghaerdydd a'r ffaith bod teuluoedd a'r gymuned wedi gorfod symud oddi yno ar ddiwedd y 60au a dechrau'r 70au. Gallai archwilio heriau dod o hyd i waith i gymeriadau o fathau gwahanol o ethnigrwydd yn y 1970au.<br><br>• Gallai paentiad o 'Yr Wyddfa' greu darn dyfeisiedig yn arddull Kneehigh am berson ifanc yn ei arddegau ag amhariad ar y golwg sydd am ddringo mynyddoedd, gan archwilio'r heriau a'r rhagfarn y gallai eu hwynebu. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="2">Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am ein bod am greu gwaith ystyrlon sy'n llywio ein dyfodol ein hunain a dyfodol pobl eraill mewn ffordd gadarnhaol ac ystyrlon.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>1.1.1<br><br>1.1.2<br><br>1.1.3</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td><td>Enghraifft<br><br>• Yn Uned 1, mae archwilio amrywiaeth o arddulliau theatrig a defnyddio amrywiaeth o ddulliau a chonfensiynau amrywiol yn galluogi dysgwyr i gael gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith drwy feithrin a chymathu amrywiaeth o sgiliau cysylltiedig â gwaith fel cymryd risgiau, datblygu gwydnwch a dysgu o brofiadau ynghyd â defnyddio sgiliau creadigol.<br><br>• Mae ymchwil a datblygu naratif i gyfleu ystyr o fewn grwpiau penodol yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin sgiliau datrys problemau, meddwl yn rhesymegol a gwneud penderfyniadau. Er mwyn cyflawni actio a dylunio mewn perfformiad mae angen i ddysgwyr ymarfer eu perfformiad, datblygu gwydnwch, dyfalbarhad a ffocws. Ymysg y dulliau ymarfer mae meithrin sgiliau rheoli amser, cynllunio a threfnu.<br><br>• Hefyd, bydd archwilio a phrofi amrywiaeth o rolau gwahanol yn y diwydiant yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddechrau ystyried dewisiadau a chyfleoedd gyrfa.<br><br>Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:<br>• Gellid dyrannu rolau swyddi penodol i ddysgwyr mewn grŵp dyfeisio drwy gydol y project, gan roi cyfrifoldebau ac atebolrwydd unigol iddynt, er</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | enghraifft, mae gan bob person gyfrifoldeb i ymgorffori un dechneg ymarferwr yn y ddrama. Gallai'r sesiwn ymarfer olygu bod angen iddynt lunio rhestr o amcanion ymlaen llaw ar gyfer yr ymarfer, gyda phob sesiwn yn cynnwys sesiwn lawn bum munud o hyd i drafod ei heffeithlonrwydd fel tîm.<br><br>• Yn ogystal â dysgu am sgiliau technegol neu sgiliau actio er enghraifft, gallai dysgwyr ddysgu am rolau swyddi mewn theatr neu ymchwilio iddynt. Gellid rhoi disgrifiad swydd i'r dysgwyr neu gallent greu un, gan amlinellu eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y project. Gellid gwella'r profiad hwn drwy gynnal taith o amgylch theatr leol, neu gynnal sesiwn holi ac ateb gyda rhywun o'r diwydiant.<br><br>• Gallai dysgwyr ystyried canllawiau iechyd a diogelwch, er enghraifft wrth greu gwaith sy'n cynnwys lefelau neu beryglon. Gallai dylunwyr archwilio eu harferion gwaith i nodi peryglon iechyd a diogelwch, e.e., gweithio ar uchder, peryglon llithro a baglu; defnyddio hylifau ar y llwyfan; gosod cyfarpar trydanol/llusernau yn ddiogel; defnyddio cadwyni diogelwch; diogelwch mewn blacowts. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am mai llythrennedd yw'r pasbort i bob math o gyfathrebu, sydd yn y pen draw yn gweithredu fel cyswllt â phob esblygiad dynol cydweithredol a datblygol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>1.1.1<br><br>1.1.2<br><br>1.1.3</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td><td>• Mae Uned 1 yn cynnig sawl cyfle i wrando ar gyfer gwybodaeth fras a phenodol. Bydd angen i ddysgwyr ddefnyddio gwrando â ffocws wrth ddysgu gwybodaeth newydd am arddulliau neu ymarferwyr; mewn trafodaethau grŵp, bydd angen iddynt wrando ac ymateb yn feirniadol i syniadau a safbwyntiau ei gilydd; wrth wylio perfformiad neu ddeunydd ymchwil bydd angen iddynt allu dehongli cyd-destun ac is-destun; wrth wylio deunydd ymarfer byddant yn defnyddio sgiliau gwrando i ganfod effeithiolrwydd eu gwaith sy'n mynd rhagddo a nodi a datrys manylion nad ydynt yn cael eu cyfleu yn effeithiol.<br><br>• Bydd angen i ddylunwyr wrando ar awgrymiadau eu hactorion ac ymateb iddynt er mwyn mireinio eu gwaith. Bydd dylunwyr sain yn defnyddio'r sgìl hwn i werthuso a mireinio eu syniadau wrth ymarfer a pherfformio.<br><br>Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:<br>• Gwylio neu wrando ar gyfweliad am gwmni theatr ac, fel grŵp, trafod a llunio rhestr o gwestiynau sydd gan y dysgwr a fyddai'n ei alluogi i feithrin ei ddealltwriaeth drwy ymchwil pellach.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Gwrando'n ofalus ar y ddeialog rhwng dau gymeriad a gwerthuso a yw'r geiriau a gaiff eu siarad yn briodol ar gyfer cyd-destun a chymeriad.<br><br>• Gwylio clip YouTube am arddull theatrig yna gwrando ar drafodaeth gydweithredol y grŵp a dewis syniadau cychwynnol a thrafod y rhai gorau a fyddai'n cyd-fynd ag arddull penodol.<br><br>• Gallai dylunydd sain wrando'n benodol am gydbwysedd ei ddyluniad a lleisiau'r actorion i gadarnhau lefelau sain ar gyfer y daflen ciwiau neu gallai ofyn i'r actorion wrando ar ddetholiad o opsiynau ar gyfer creu tansgor cerddoriaeth perfformiad a chyfiawnhau dewis mewn trafodaeth grŵp. |
| Darllen | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>*1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | ***Enghraifft***<br><br>• Bydd angen i actorion a dylunwyr ddarllen testun, ffynonellau digidol a chyfryngau i gael gwybodaeth fras a phenodol, gan nodi is-destun a chyd-destun drwy ddod i gasgliadau a phenderfyniadau. Bydd angen i ddysgwyr ddarllen a gwerthuso eu nodiadau, diagramau neu fapiau meddwl eu hunain a rhai dysgwyr eraill.<br><br>• Hefyd, bydd dysgwyr yn darllen perfformiadau i gael ystyr a gwybodaeth. Bydd angen i ddysgwyr ddarllen yn uchel o sgriptiau neu destunau a phrawfddarllen cynnwys eu log adfyfyriol.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gallai dysgwyr ddarllen drwy daflen gyda gwybodaeth am ymarferwr i nodi nodweddion arddull a chroesi allan unrhyw gynnwys sy'n |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | amherthnasol, gan eu hannog i ddarllen i gael gwybodaeth benodol.<br><br>• Gallai dysgwyr archwilio amrywiaeth o ddarnau o sgript, darllen yn uchel yn y rôl a nodi adegau addas ar gyfer ciwiau goleuo a/neu sain, meithrin y sgìl o ddarllen ymlaen wrth ddarllen at ddiben penodol.<br><br>• Gallai darllen taflenni adborth cynulleidfa alluogi dysgwyr i ddarllen gwybodaeth benodol am ymateb y gynulleidfa i feysydd dethol o'u gwaith er mwyn llywio eu logiau adfyfyriol.<br><br>• Bydd prawfddarllen eu logiau adfyfyriol, rhaglenni, hysbysebion, sgripiau a thaflenni ciwiau yn datblygu a mireinio sgiliau darllen manwl. |
| Siarad | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>*1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>*Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw*<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | ***Enghraifft***<br><br>• Mae siarad yn rhan hanfodol o'r broses ddyfeisio. Bydd dysgwyr yn cyfrannu at siarad cydweithredol mewn trafodaeth grŵp, gan gymryd rolau gwahanol a defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau siarad ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Bydd angen iddynt addasu eu cwmpasran ar gyfer cyd-destunau gwahanol a meithrin eu gallu i gyfleu syniadau a chysyniadau heriol.<br><br>• Wrth greu'n fyrfyfyr, ymarfer neu berfformio byddant yn defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau siarad, yn amrywio eu mynegiant, eu cyflymder a'u tôn i ymgysylltu â chynulleidfa a chyfleu ystyr. Byddant yn meithrin eu gallu i ddefnyddio iaith bwnc benodol, er enghraifft am safleoedd ar y |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | llwyfan yn ystod ymarfer. Bydd dylunwyr ac actorion yn meithrin y sgìl i gyfleu syniadau a chysyniadau haniaethol. Mae'r broses hon hefyd yn eu galluogi i siarad yn effeithiol am yr hyn maen nhw wedi ei glywed, ei ddarllen neu ei weld.<br><br>• Bydd siarad yn gydweithredol yn eu grwpiau a gyda'u cyfoedion wrth gyflwyno gwaith sy'n mynd rhagddo ac yn ystod y perfformiad terfynol yn galluogi dysgwyr i siarad mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac addasu'r iaith yn briodol.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Archwilio amrywiaeth o acenion a chwmpasran wrth greu cymeriadau ar gyfer darn dyfeisiedig naturiolaidd.<br><br>• Camu allan o'r ymarfer i arsylwi ar yr olygfa a rhoi adborth a chyfarwyddyd i gyfoedion yn glir ac yn effeithiol gan ddefnyddio geirfa pwnc benodol.<br><br>• Trafod fel grŵp y cryfderau a'r gwendidau y tu ôl i'r broses o ddewis syniad penodol a rhoi llinell meddwl barhaus er mwyn darbwyllo'r grŵp i gymryd cymeriad penodol.<br><br>• Dylunydd sain yn esbonio i'r actorion beth yw'r rhesymeg y tu ôl i ddewis sain benodol neu ganfasio eu barn ar ei llwyddiant. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Ceir llawer o gyfleoedd i ysgrifennu yn ystod Uned 1, boed hynny ar ffurf nodiadau, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ar bapur neu'n ddigidol. Bydd dysgwyr yn defnyddio ysgrifennu i esbonio ac egluro eu syniadau, i gymryd nodiadau, i greu a mireinio sgriptiau, i lunio dyddiaduron ymarfer ac i ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith yn eu log adfyfyriol. Bydd angen i ddysgwyr sy'n dewis log fideo allu creu cardiau ciwiau ac ysgogiadau.<br><br>• Bydd angen placardiau cywir a thafluniadau PowerPoint ar gyfer gwaith yn arddull Brecht. Bydd angen i ddysgwyr ychwanegu eu cyfraniadau yn effeithiol at ddogfennau ar-lein a rennir, e.e. sgript sy'n datblygu.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Cymryd nodiadau yn ystod trafodaeth grŵp a llunio map meddwl neu grynodeb i'w dosbarthu i'r grŵp neu ychwanegu at sgwrs y grŵp i grynhoi pwyntiau allweddol y drafodaeth.<br><br>• Ysgrifennu sgript yn gywir gan ddefnyddio ffurfiau a chonfensiynau priodol; llunio areithiau ar gyfer cymeriadau gan wneud dewisiadau ieithyddol a geiriadurol i sicrhau bod y cymeriad a'i emosiynau yn cael eu cyfleu yn glir.<br><br>• Cynllunio ac ysgrifennu amrywiaeth o ddrafftiau ar gyfer y rhannau o'r log adfyfyriol, gan fireinio'r deunydd drwy fyfyrio'n ystyrlon ac ychwanegu geirfa pwnc benodol ac amrywiaeth ehangach o gysyllteiriau i gysylltu eu syniadau yn fwy effeithiol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Ysgrifennu nodiadau ac anodiadau clir ar sgript goleuo i'w defnyddio gan athro neu dechnegydd i weithredu'r golau ar gyfer y darn dyfeisiedig. |
| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | | | |
| | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am eu bod yn sicrhau y gellir cymhwyso meddwl rhesymegol yn hael wrth greu celfyddyd arloesol.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | *1.1.1*<br><br>1.1.2<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Mae llawer o gyfleoedd i ddysgwyr feithrin hyfedredd mathemategol gan ddefnyddio amrywiaeth o symbolau ac unedau mesuriadau. Mae cyfleoedd i'w cael yn aml yn elfen ddylunio'r gwaith dyfeisiedig. Bydd angen i grwpiau heb ddylunydd ystyried mesuriadau siâp, gofod a safle o hyd. Bydd angen i ddylunwyr ddefnyddio mesuriadau, graddfa, canrannau, onglau, pwysau, maint a siâp yn eu gwaith a bydd angen iddynt ddefnyddio iaith fathemategol i siarad am eu dyluniadau.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Mesuriadau siâp, gofod a safle a ddefnyddir efallai gan ddysgwyr sy'n creu cynlluniau llawr ar gyfer gofod perfformiad neu lwyfan penodol.<br><br>• Gall fod angen i ddylunydd gwisgoedd ystyried rhinweddau cymharol pwysau ffabrig gwahanol ar gyfer dilledyn penodol, gan gyfrifo costau gwahanol fesul metr sgwâr a gweithio o fewn cyllideb benodol. Gallai fod angen addasu dilledyn neu ychwanegu ato ar gyfer actor penodol sy'n golygu bod angen cymryd mesuriadau cywir. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Mae deall y system rif yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Mae Uned 1 yn cynnig rhai cyfleoedd i ddysgwyr ystyried y perthnasoedd rhwng rhifau a niferoedd, er enghraifft gweithio gyda chyllideb fel dylunydd neu ddeall cynnydd neu leihad mewn tanbeidrwydd golau neu lefel sain.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gallai dylunydd goleuo arbrofi â bwrdd goleuadau i ymchwilio i effaith cynyddu disgleirdeb llusernau gel ar ddillad lliw. Byddai adfyfyrio ar y canlyniadau hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a fyddai'n effeithio ar y dyluniad golau ar gyfer gwaith dyfeisiedig eu grŵp.<br><br>• Gallai actor a dylunydd sain gydweithio i rifo ciwiau yn eu trefn mewn rhestr trefn theatr gorfforol fanwl a phrysur yn cynnwys sgyrsiau ffôn ac amrywiaeth o effeithiau sain ffôn. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
|---|---|---|---|
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli ffenomena yn y byd go iawn | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Mae cyfleoedd i ystyried geometreg, siâp, gofod a safle yn y broses ddyfeisio ar gyfer actorion a dylunwyr er enghraifft wrth ystyried mathau o lwyfannu a maint gofod perfformio neu safle set neu bropiau allweddol a'r effaith a gaiff y rhain ar amlbwrpasedd neu'r gofod perfformio.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Bydd angen i ddylunwyr goleuo a dysgwyr eraill ystyried yr elfennau hyn wrth gynllunio onglau golau a safleoedd llusernau; bydd dylunwyr set neu ddysgwyr sy'n cynllunio eu gofod perfformio yn ystyried yr elfennau hyn yn rhan o'u proses ddylunio ac wrth iddynt ddylunio blwch model gan ddefnyddio graddfeydd, trosi unedau a gweithio gyda chymarebau. Gallai fod angen i ddylunydd sain fesur hyd croesraddoli neu newid tempo effaith sain i gyd-fynd â dilyniant symud a ddyluniwyd gan berfformiwr a'i osod o fewn nifer penodol o gamau.<br><br>• Bydd dylunydd gwisgoedd yn defnyddio ei ddealltwriaeth o siâp, gofod a safle i gynllunio ei broses torri patrymau; bydd angen i ddylunydd set sy'n creu rhan o'r set wneud yr un fath wrth dorri allan ddarnau o'r dyluniad ar gardfwrdd neu bren haenog i sicrhau y gellir gwneud y defnydd gorau o'r deunydd. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
|---|---|---|---|
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau a phenderfyniadau gwybodus | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Gall gwybod sut i ddarllen a dadansoddi data ac ystadegau gyfrannu at Uned 1. Gallai dysgwyr ddefnyddio ystadegau i lywio'r gwaith o ddatblygu gwaith dyfeisiedig a darparu cynnwys ar gyfer y perfformiad. Gallai casglu data i greu ystadegau fod yn bwysig wrth lunio a dehongli canlyniadau mewn holiadur ar gyfer cynulleidfa wrth roi cynnig ar berfformiad.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gallai perfformwyr lunio graff tensiwn ar gyfer eu perfformiad naturiolaidd a'i ddefnyddio i nodi cyfleoedd i leihau tensiwn er mwyn gwneud y gwaith yn llai dwys i'r gynulleidfa.<br><br>• Gallai grŵp dyfeisio ddewis llunio a chreu data a myfyrio arnynt er mwyn dod i gasgliadau a phenderfyniadau gwybodus wrth gyfleu ystyr drwy naratif a'r defnydd o ystadegau. Gall hyn gael ei ddefnyddio mewn arddulliau a genres theatrig penodol fel Theatr mewn Addysg neu Theatr y Gorthrymedig. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | | | |
|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am eu bod yn galluogi gwelliant digidol i gefnogi'r broses o greu gwaith newydd, gan gynnal perthnasedd yn y dirwedd gyfoes hon sy'n newid yn barhaus.**<br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *1.1.1* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr* | • Bydd bod yn ddinesydd digidol cydwybodol yn ystyriaeth bwysig i ddysgwyr yn y broses ddyfeisio. Mae defnyddio deunydd digidol ac adnoddau yn ddoeth ac yn ddiogel i ymchwilio i syniadau creadigol a'u datblygu yn rhan allweddol o'r broses. Byddai bod yn ymwybodol o ddiogelwch a chwrteisi ar-lein yn ystyriaeth pe byddai dysgwyr yn cysylltu â chwmni theatr neu'n cyfathrebu ag unrhyw ffynonellau allanol.<br>• Bydd meddwl pryd i ddefnyddio technoleg ddigidol a sut gall gyfrannu at y project mewn modd cadarnhaol yn bwysig wrth weithio gydag arddulliau y mae angen elfennau gweledol arnynt i ychwanegu at y perfformiad. Mae angen ystyried cyfreithiau ynghylch llên-ladrad a hawlfraint a lawrlwytho'n anghyfreithlon wrth ddewis deunydd sain a fideo er enghraifft.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gall dysgwyr reoli ffeiliau a ffolderi digidol, yn annibynnol ac yn gydweithredol, yn ystod y broses ddyfeisio ac wrth rannu adnoddau – gall grŵp ddefnyddio sgwrs grŵp neu ddogfen datblygu sgript a rennir a bydd angen iddynt weithio gan ddefnyddio cwrteisi digidol priodol. |
| | 1.1.2 | Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw | |
| | *1.1.3* | *Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Gall dysgwyr gynllunio eu gwaith digidol yn ystod y broses ymarfer a chwilio drwy amrywiaeth o ffynonellau wrth greu naratif ac archwilio cysyniadau dylunio. Gallent lunio rhestr o ffynonellau yn eu dyddiaduron ymarfer i'w defnyddio yn eu logiau adfyfyriol.<br><br>• Gallai dysgwyr archwilio gan ddefnyddio amlgyfrwng yn eu gwaith dyfeisiedig a byddai angen iddynt ystyried buddiannau a chyfyngiadau amrywiaeth o ddulliau digidol at eu pwrpas a allai gynnwys yn eu log adfyfyriol.<br><br>• Mae cyflwyno deunydd digidol ar ddiwedd y broses wrth gyflawni actio a dylunio mewn perfformiad yn hwyluso'r broses o fireinio gwaith digidol yn seiliedig ar adfyfyrio. Mae hyn hefyd yn wir am y lot adfyfyriol os caiff ei lunio'n ddigidol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Rhyngweithio a Chydweithio | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Bydd rhyngweithio a chydweithio'n ddigidol yn chwarae rôl yn Uned 1. Bydd dysgwyr yn rhannu syniadau yn ddigidol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau a rhaglenni. Bydd nodi'r dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu'n ddigidol yn helpu i symud y gwaith yn ei flaen. Gall dysgwyr ryngweithio'n ddigidol i gwrdd yn rhithwir, er mwyn cynllunio a thrafod a gallant hefyd greu lleoliad cydweithredol i storio fideos, ffotograffau a drafftiau o waith parhaus. Gallant ddefnyddio amrywiaeth o ddarparwyr cyfathrebu a dylent ystyried cyfyngiadau a chwrteisi mewn perthynas â'r rhain. Mae'n bwysig iawn bod dysgwyr yn ymwybodol o osodiadau preifatrwydd a sut i sicrhau bod eu gwaith yn aros yn breifat ar gyfer y grŵp.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gallai grŵp perfformio sefydlu dogfen OneDrive a rennir gyda chaniatâd i bob aelod o'r grŵp allu ychwanegu ato a golygu deunydd ar gyfer sgript grŵp gyda sawl defnyddiwr yn cydweithredu ar yr un pryd.<br><br>• Gallai grŵp o actorion dyfeisio gyda dylunwyr ddefnyddio Pinterest fel bwrdd naws cydweithredol ar-lein wrth iddynt ymchwilio i'w syniad a'i ddatblygu. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchu | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Mae Uned 1 yn cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd cynhyrchu digidol i ddysgwyr gynllunio, creu, mireinio a dangos cynnwys digidol. Gallai'r cynnwys hwn barhau i fod yn ddigidol neu gallai gael ei argraffu ar ei ffurf derfynol.<br><br>• Bydd dysgwyr yn ymchwilio i ddeunydd yng nghamau cyntaf y broses ddyfeisio, gan goladu gwybodaeth a dewis cynnwys ar gyfer eu gwaith. Mae cyfleoedd ar gael ar bob cam – syniadau, datblygu a mireinio perfformiad, y perfformiad ei hun a'r cam log adfyfyriol.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gwerthuso cyfres o glipiau ar-lein a dewis cynnwys priodol i'w gynnwys mewn cyflwyniad; ymgorffori fideo mewn ffeil PowerPoint a chreu amseriadau ar gyfer y cynnyrch terfynol.<br><br>• Dylunydd sain yn cyrchu ac yn creu cynnwys fideo ar gyfer tansgor mewn darn theatr gorfforol, gweithio gyda meddalwedd golygu sain ac archwilio'r cynnyrch gorffenedig.<br><br>• Cynhyrchu'r log adfyfyriol fel Flog gyda graffigau a delweddau; golygu'r log a mireinio'r cynnwys i greu'r ddogfen ddigidol orffenedig.<br><br>• Cyrchu dyfyniadau priodol ar gyfer cyfres o blacardiau a gaiff eu taflunio sydd wedi'u hamseru o fewn episod ar ffurf Brecht; gweithio gyda'r perfformwyr i sefydlu amseriadau ar gyfer pob sleid. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Yn Uned 1 bydd dysgwyr yn dod ar draws data a gwybodaeth ar sawl achlysur a fwy na thebyg byddant yn coladu ac yn sgorio gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau. Bydd actorion a dylunwyr yn dehongli data a gwybodaeth i wneud penderfyniadau yng nghamau cychwynnol a pharhaus eu proses greadigol.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Gallai grŵp dyfeisio weithio gydag amrywiaeth o ddata a gwybodaeth am bwnc o sawl ffynhonnell wahanol. Bydd angen iddynt ddadansoddi a dehongli'r wybodaeth er mwyn dewis ffeithiau allweddol ar gyfer eu darn Theatr mewn Addysg. Gallai dysgwyr gyfeirio at effeithlonrwydd eu penderfyniadau fel rhan o'u log adfyfyriol.<br><br>• Gallai dylunydd gwisgoedd, gwallt a cholur ddefnyddio detholiad o siartiau colur a gwybodaeth am gynnyrch i ddewis adnoddau priodol ar gyfer eu dyluniad, gan weithio o fewn cyllideb. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| **Sgiliau Cyfannol** | | | |
|---|---|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | **Mae sawl cyfle i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am ein bod yn gobeithio y gall gwaith dysgwyr heddiw ddatrys heriau yfory, ynghyd â chanfod posibiliadau nad oeddem yn gwybod eu bod yn bodoli.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Creadigrwydd ac Arloesedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Mae'r broses o greu a mireinio yn Uned 1 yn cynnig sawl cyfle i ddysgwyr fod yn chwilfrydig ac yn ymholgar ynghylch amrywiaeth o ysgogiadau dramatig, ffurfiau a chonfensiynau theatrig ynghyd â theori drama a chyd-destun hanesyddol. Mae'r broses ddyfeisio hefyd yn galluogi dysgwyr i fod yn agored i wahanol ffyrdd o feddwl, gan ystyried dylanwadau a datblygu gwybodaeth i'w defnyddio wrth ddatblygu eu creadigrwydd eu hunain.<br><br>• Hefyd, mae'r broses o greu a mireinio deunydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos proses effeithiol o greu syniadau. Mae'r broses o greu deunydd o 'O'r Llyfr i'r Llwyfan' yn galluogi dysgwyr i gysylltu profiadau ar wahân, gwybodaeth a sgiliau, ac archwilio a chyfiawnhau datrysiadau amgen lle na fydd cysyniadau actio a dylunio yn gweithio'n ymarferol o bosibl.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Rhoi cynnig ar gyfres o arbrofion creadigol gyda llusernau i geisio creu effaith lampau blaen car yn dod ar y llwyfan.<br><br>• Gwneud y penderfyniad mentrus i archwilio symudiadau araf a llais mewn darn dyfeisiedig arddull Berkoff a dod o hyd i ddatrysiadau creadigol i'r materion a godir. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| **Sgiliau Cyfannol** | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Dylunydd set yn dod o hyd i ddatrysiad creadigol gyda melin draed cerdded i berfformiad y mae angen iddo gerdded yn yr unfan o dan olau cylch unigol.<br><br>• Dylunydd goleuo yn arbrofi gydag amrywiaeth o effeithiau goleuo i alluogi actorion i greu rhith o gymeriad yn arnofio yn y gofod mewn perfformiad theatr gorfforol. |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr gan mai dim ond drwy'r dull hwn y gall canlyniad eu celfyddyd barhau i fod yn allgarol.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *1.1.1*<br><br>*1.1.2*<br><br>*1.1.3* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr*<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain* | • Caiff gwaith ei fireinio yn ystod y broses ddyfeisio, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cwestiynu a datrys problemau adfyfyriol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl. Gall dysgwyr feddwl yn ddadansoddol a dangos dealltwriaeth o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol posibl wrth archwilio naratif ac amrywiaeth o ffurfiau a chonfensiynau dramatig hanesyddol a chyfoes.<br><br>• Wrth ymchwilio i sgriptiau a'u creu, gall dysgwyr werthuso'r defnydd o ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol. Gellir dangos cyfiawnhad o'u penderfyniadau yn y log adfyfyriol.<br><br>• Mae angen amrywiaeth o sgiliau cyfunol wrth berfformio theatr gan gynnwys cynllunio, llunio a golygu. Er mwyn sicrhau perfformiadau effeithio mae angen i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth o amrywiaeth o sgiliau, a’r gallu i gymhwyso gwybodaeth. Mae'r broses o ddatblygu'r |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| Sgiliau Cyfannol | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darnau ar gyfer perfformiad terfynol, gan ddefnyddio sgiliau diwygio a mireinio, yn addas ar gyfer sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau. Er mwyn goresgyn problemau y deuir ar eu traws yn y cyfnod ymarfer, bydd angen i ddysgwyr ddangos sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau.<br><br>**Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:**<br>• Byddai creu a datblygu trawsnewidiadau effeithiol i gysylltu golygfeydd allweddol digyswllt yn annog sgiliau datrys problemau yn unigol ac mewn grŵp.<br><br>• Er mwyn nodi pam nad yw effaith sain benodol yn cyfuno'n effeithiol gydag adeg benodol mewn darn o theatr yn galw am sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau soffistigedig.<br><br>• Byddai pennu tasg dylunio propiau ar gyfer prop effeithiau arbennig yn annog sgiliau datrys problemau mewn cyd-destun ymarferol.<br><br>• Er mwyn dadansoddi a gwerthuso perfformiad neu foment mewn ymarfer sy'n arbennig o bwerus, mae angen sgiliau meddwl yn feirniadol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr>
<td rowspan="3">Cynllunio a Threfnu</td>
<td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae'n hanfodol bod y broses o astudio crefft theatr yn gyfannol, gan sicrhau bod gwaith y sawl sydd y tu ôl i'r llenni yn cael ei werthfawrogi i'r un graddau â'r sawl sy'n ymgorffori'r cynnyrch perfformiad terfynol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a dysgu:</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfeirnod y Fanyleb</td>
<td>Ymhelaethiad</td>
<td>Enghraifft</td>
</tr>
<tr>
<td>1.1.1<br><br><br><br>1.1.2<br><br><br><br><br><br><br>1.1.3</td>
<td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td>
<td>• Disgwylir i ddysgwyr bennu nodau, gwneud penderfyniadau a monitro canlyniadau dros dro o'r broses gychwynnol o ddewis ysgogiad i gamau terfynol Uned 1. Bydd dysgwyr yn mynd yn gynyddol annibynnol ar yr athro wrth i Uned 1 ddatblygu tuag at y perfformiad, gyda'r broses o feithrin sgiliau cynllunio a threfnu yn ffactor allweddol i gefnogi'r broses hon. Mae natur trefniadau grŵp, disgwyliadau a rhyngweithiadau yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o emosiynau, ymddygiadau a dylanwadau cymdeithasol, sgiliau sy’n hanfodol i adeiladu perthynas gref er mwyn cyflawni nodau.<br><br>Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:<br>• Cynhyrchu amserlen ymarfer a threfnu lleoliadau ac amseroedd ymarfer; rhannu'r wybodaeth hon ag aelodau grŵp eraill.<br><br>• Cydgysylltu a sefydlu dogfen a rennir ar gyfer ysgrifennu sgriptiau ar-lein.<br><br>• Mae angen trefnu a dilyniannu proses gyflym i newid gwisg sy'n ofynnol ar gyfer trawsnewidiad cyflym.</td>
</tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="3">Effeithiolrwydd Personol</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am ei fod yn eu galluogi i ystyried eu cyfraniad unigol i'r canlyniadau terfynol, gan gatalyddu gwerthusiad a thwf personol sydd o fudd i bawb y maent yn cydweithio â nhw.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Effeithiolrwydd Personol yn yr addysgu a'r dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>1.1.1<br><br>1.1.2<br><br>1.1.3</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br><br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br><br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td><td>Enghraifft<br><br>• Mae meithrin hyder ac annibyniaeth wrth ddefnyddio'r deunydd hwn a'i drosi yn theatr yn nodwedd gref o Uned 1 sy'n helpu dysgwyr i fod yn arloesol, yn ddyfeisgar ac yn gydnerth, i weithio fel tîm a bod yn gyfranogwyr dibynadwy. Drwy ymchwilio i ystyr a'i gyfleu, gallant feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas gan arwain at ganlyniadau pwrpasol. Mae cynnwys Uned 1 yn galluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus, ystyrlon, gan adfyfyrio ar eu dewisiadau a'u cyfiawnhau. Caiff sgiliau hunanwerthuso, gwydnwch ac adfyfyrio eu defnyddio wrth lunio'r log adfyfyrio.<br><br>Enghreifftiau o sut gellid mynd i'r afael â hyn:<br>• Pennu amserlen bersonol, â dyddiadau, ar gyfer dysgu llinellau.<br><br>• Datblygu gwydnwch a ffocws drwy ymarfer dilyniant deuawd cadair yn barhaus.<br><br>• Lawrlwytho llawlyfr desg goleuo a dysgu sut i raglennu dilyniant golygfa erlid ar eu liwt eu hunain.<br><br>• Cynllunio amserlen effeithlon sy'n arbed arian ar gyfer y broses o ddylunio gwisgoedd.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025